



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1
Legislation Committee No. 1**

**Dydd Iau, 28 Ionawr 2010
Thursday, 28 January 2010**

**Cynnwys
Contents**

- 3 Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon
Introduction, Apologies and Substitutions
- 4 Mesur Arfaethedig Cynlliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau)—Cyfnod 1, Sesiwn
Dystiolaeth 4: yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Mesur Arfaethedig
Proposed National Assembly for Wales (Remuneration) Measure—Stage 1, Evidence
Session 4: Member in Charge of the Proposed Measure
- 40 Cynnig Trefniadol Procedural Motion

Cofnodiad y trafodion hyn yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y pwylgor. Yn ogystal,
cynhwysir cyfieithiad Saesneg o gyfraniadau yn y Gymraeg.

These proceedings are reported in the language in which they were spoken in the committee.
In addition, an English translation of Welsh speeches is included.

Aelodau'r pwylgor yn bresennol
Committee members in attendance

Eleanor Burnham	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Welsh Liberal Democrats
Rosemary Butler	Llafur (Cadeirydd y Pwyllgor) Labour (Committee Chair)
Ann Jones	Llafur Labour
Val Lloyd	Llafur Labour
Nick Ramsay	Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives

Eraill yn bresennol
Others in attendance

Keith Bush	Prif Gynghorydd Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol Chief Legal Adviser and Director of Legal Services
Dianne Bevan	Prif Swyddog Gweithredu, Cynulliad Cenedlaethol Cymru Chief Operating Officer, National Assembly for Wales
Yr Arglwydd/Lord Dafydd Elis-Thomas AC/AM	Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Presiding Officer of the National Assembly for Wales

Swyddogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn bresennol
National Assembly for Wales officials in attendance

Claire Griffiths	Dirprwy Glerc Deputy Clerk
Bethan Roberts	Cynghorydd Cyfreithiol Legal Adviser
Liz Wilkinson	Clerc Clerk

*Dechreuodd y cyfarfod am 1.01 p.m.
The meeting began at 1.01 p.m.*

Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon
Introduction, Apologies and Substitutions

[1] **Rosemary Butler:** Good afternoon, everyone, and welcome to today's meeting. We have received apologies for absence from Chris Franks, and Bethan Jenkins was going to be his substitute, but Bethan is also unable to come. Before we move on to the main item on the agenda, I will remind you that the committee operates bilingually and that you can use the headsets to listen to the simultaneous translation of Welsh contributions or as an induction loop to hear the whole proceedings more clearly. Please turn off your mobile phones. After last week's meeting, I will repeat that: please turn

Rosemary Butler: Pryn hawn da, bawb, a chroeso i gyfarfod heddiw. Yr ydym wedi derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Chris Franks, yr oedd Bethan Jenkins am gymryd ei le, ond nid yw Bethan yn gallu dod ychwaith. Cyn inni symud ymlaen at y brif eitem ar yr agenda, yr wyf am eich atgoffa fod y pwylgor yn gweithredu'n ddwyieithog ac y gallwch ddefnyddio'r clustffonau i wrando ar y cyfeithiad ar y pryd o'r cyfaniadau Cymraeg neu fel dolen sain i glywed yr holl drafodion yn gliriach. Cofiwch ddiffodd eich ffonau symudol. Ar ôl cyfarfod yr wythnos diwethaf, yr wyf am

off your mobile phones, pagers or other electronic devices, as they interfere with the broadcast and translation systems. Please do not touch the microphones, as that will disable the system. They will come on automatically.

bwysleisio hynny eto: cofiwch ddiffodd eich ffonau symudol, galwyr a dyfeisiau electronig eraill, gan eu bod yn amharu ar y systemau darlledu a chyfieithu. Peidiwch â chyffwrdd â'r microffonau gan y bydd hynny'n analluogi'r system. Byddant yn tanio'n awtomatig.

1.02 p.m.

**Mesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau)—Cyfnod 1,
Sesiwn Dystiolaeth 4: yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Mesur Arfaethedig
Proposed National Assembly for Wales (Remuneration) Measure—Stage 1,
Evidence Session 4: Member in Charge of the Proposed Measure**

[2] **Rosemary Butler:** The purpose of today's meeting is to take further oral evidence from the Presiding Officer, who is the Member in charge of the Proposed National Assembly for Wales (Remuneration) Measure. Welcome, Presiding Officer, we are pleased to see you back again today, accompanied by Keith Bush, who is the director of legal services, and Dianne Bevan, the chief operating officer. We will follow the usual format. We have a number of questions to ask you and, at the end, if there is anything that you feel that we have not covered, we would be delighted if you would raise that issue. I will ask the first question. Can you remind us why you think there is a need for an independent board to make decisions on all aspects of financial support for Assembly Members?

[3] **The Presiding Officer:** It is because it was accepted by the Assembly Commission when we accepted the report of the independent panel. It was a basic principle of that report. There is history to this, of course. The National Assembly for Wales was, you will remember, happily known as one corporate body—in other words, the Members had no real say in what went on here—and then, after some time, there was a move towards maximum separation in the Government of Wales Act 2006, coming into effect in 2007 after the election, when the Assembly Commission was established. Previous to that, the remuneration of Members had been determined by using the Senior Salaries Review Body. The last time that was done was 2004. With the coming of the Government of Wales Act 2006, for the

Rosemary Butler: Diben cyfarfod heddiw yw cymryd rhagor o dystiolaeth lafar gan y Llywydd, sef yr Aelod sy'n gyfrifol am Fesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau). Croeso Lywydd, yr ydym yn falch i'ch gweld yn ôl eto heddiw, ynghyd â Keith Bush, sef cyfarwyddwr y gwasanaethau cyfreithiol, a Dianne Bevan, y prif swyddog gweithredu. Byddwn yn dilyn y fformat arferol. Mae gennym nifer o gwestiynau i'w gofyn i chi ac, ar y diwedd, os oes unrhyw beth y teimlwch nad ydym wedi'i drafod, byddem wrth ein bodd pe baech yn codi'r mater hwnnw. Yr wyf am ofyn y cwestiwn cyntaf. A allwch chi'n atgoffa ni pam yr ydych yn meddwl fod angen bwrdd annibynnol i wneud penderfyniadau ar bob agwedd ar gymorth ariannol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad?

Y Llywydd: Mae hyn oherwydd ei fod wedi'i dderbyn gan Gomisiwn y Cynulliad pan dderbyniwyd adroddiad y panel annibynnol gennym. Yr oedd yn egwyddor sylfaenol o'r adroddiad hwnnw. Mae hanes i hyn, wrth gwrs. Yr oedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, fel y byddwch yn cofio, yn cael ei adnabod yn hapus fel un corff corfforaethol—mewn geiriau eraill, nid oedd gan yr Aelodau unrhyw wir ddylanwad ar yr hyn a oedd yn digwydd yma—ac yna, ar ôl peth amser, symudwyd tuag at arwahanu llwyr yn Nedd Llywodraeth Cymru 2006, a ddaeth i rym yn 2007 ar ôl yr etholiad, pan sefydlwyd Comisiwn y Cynulliad. Cyn hynny, yr oedd taliadau'r Aelodau wedi'u pennu drwy ddefnyddio'r Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion. Y tro diwethaf i hynny gael ei wneud oedd yn 2004. Gyda

first time ever, in that Act, the Assembly Commission was empowered to become responsible, and indeed, had the obligation for being responsible, for the remuneration of Members.

[4] In a Schedule to that Act with the process of legislating emerging in the Assembly, there was a matter in a field, which enabled the whole issue of remuneration to be pursued by the Assembly Commission having the ability to make legislation. When that option came, it was decided, following the consideration by the Commission of the independent report, that we should follow that route. Indeed, all the recommendations were accepted, as you may remember. I then made a statement, as chair of the Commission, announcing that we would do that. In the meantime, such a body has been established at Westminster. The Scottish Parliamentary Corporate Body and the Scottish Parliament are pursuing ways of ensuring greater independence in the remuneration of Members and, latterly, the Northern Ireland Assembly, which hopefully will return to full and active life soon, has obtained, through a Westminster Bill, similar powers to those that we have in our matters in that field in the Government of Wales Act.

[5] The principle here is simple. It is our view that it is inappropriate for elected Members to determine their own salaries. Public confidence, particularly in a new democracy in Wales, depends on there being perceived, independent and clear decision-making powers in these matters. The public does not accept that elected Members should determine their own salaries and financial support, and in these matters the public is right.

[6] We have always taken independent advice, as I indicated, using the SSRB and, after that, an independent panel and then another one, with that independent panel recommending that we have a statutory remuneration board. I am pleased to be making Welsh law. I quite enjoy making Welsh law, as I know that most of you do; otherwise, you would not be sitting here doing it. It is important that we take advantage of the powers that we have in the Government of Wales Act, which is why we

dyfodiad Deddf Llywodraeth Cymru 2006, am y tro cyntaf erioed, yn y Ddeddf honno, rhoddwyd y pŵer, ac, yn wir, y rhwymedigaeth i Gomisiwn y Cynulliad fod yn gyfrifol am daliadau Aelodau.

Mewn Atodlen i'r Ddeddf honno gyda'r broses o ddeddfu'n dechrau digwydd yn y Cynulliad, yr oedd mater mewn un maes a oedd yn galluogi Comisiwn y Cynulliad o fod â'r gallu i ddeddfu i fynd i'r afael â holl fater taliadau. Pan ddaeth yr opsiwn hwnnw, penderfynwyd, ar ôl i'r Comisiwn ystyried yr adroddiad annibynnol, y dylem ddilyn y llwybr hwnnw. Yn wir, derbyniwyd yr holl argymhellion, fel y cofiwr, o bosibl. Yna, gwneuthum ddatganiad, fel cadeirydd y Comisiwn, yn cyhoeddi y byddem yn gwneud hynny. Yn y cyfamser, mae corff o'r fath wedi'i sefydlu yn San Steffan. Mae Corff Corfforaethol Seneddol yr Alban a Senedd yr Alban yn chwilio am ffyrdd o sicrhau mwy o annibyniaeth yn nhaliadau Aelodau ac, yn ddiweddar, mae Cynulliad Gogledd Iwerddon, a fydd yn dychwelyd i fywyd llawn a gweithredol yn fuan, gobeithio, wedi derbyn, drwy Fesur San Steffan, bwerau tebyg i'r hyn sydd gennym ninnau yn ein materion yn y maes hwnnw yn Neddf Llywodraeth Cymru.

Mae'r egwyddor yma'n symbl. Yn ein barn ni, nid yw'n briodol i Aelodau etholedig bennu eu cyflogau eu hunain. Mae hyder y cyhoedd, yn enwedig mewn democraeth newydd yng Nghymru, yn dibynnu ar bobl yn amgyffred bod pwerau penderfynu annibynnol a chlir yn y materion hyn. Nid yw'r cyhoedd yn derbyn y dylai Aelodau etholedig bennu eu cyflogau a'u cymorth ariannol eu hunain, ac yn y materion hyn mae'r cyhoedd yn gywir.

Yr ydym bob amser wedi derbyn cyngor annibynnol, fel y dywedais, drwy ddefnyddio'r SSRB ac, ar ôl hynny, y panel annibynnol ac yna un arall, gyda'r panel annibynnol hwnnw yn argymhell y dylem gael bwrdd taliadau statudol. Yr wyf yn falch o wneud cyfreithiau i Gymru. Yr wyf yn mwynhau gwneud cyfreithiau i Gymru, fel y gwn y mae'r rhan fwyaf ohonoch yn ei wneud; fel arall ni fydd eich yn eistedd yma yn gwneud hynny. Mae'n bwysig ein bod yn manteisio ar y pwerau sydd gennym yn

are here. The main principle, which you are concerned about at this stage of this legislation, is establishing that elected Members or their staff should not determine their own salaries.

[7] **Rosemary Butler:** We all enjoy making law but we are here to make sure that we make good law. That is why we will grill you this afternoon. I now call on Eleanor Burnham.

[8] **Eleanor Burnham:** Mae gennys ddau gwestiwn am fwrdd taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r pwylgor wedi cael dystiolaeth sy'n awgrymu y dylid rhoi ystyriaeth bellach i deitl y bwrdd gan fod y cyhoedd, ar y cyfan, yn cysylltu'r term Saesneg, sef '*remuneration*', â thâl neu gyflog. Credir hefyd nad yw'n adlewyrchu'n deg yr holl gymorth ariannol sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad a bod iddo arwyddocâd negyddol. Beth yw eich barn chi am hyn?

[9] **Y Llywydd:** Credaf fod yr ymadrodd 'taliadau' yn gwbl dderbynol yn y Gymraeg. Gwneuthum ychydig o ymchwil i hyn y bore yma a cheisio meddwl beth fyddai'r cyfieithiad priodol o '*remuneration*'. Credaf fod 'taliadau' yn y Gymraeg yn gliriach na '*remuneration*' yn y Saesneg. Os gall y pwylgor hwn ddod o hyd i air gwell i gyfieithu 'taliadau', byddwn yn barod iawn i'w ystyried. '*Remuneration*' a geir yn Neddf 2006 a dyna pam yr ydym wedi defnyddio'r term. Fel y dywedais, ewch ati os gallwch ddod o hyd i air arall. Credaf fod y gair '*remuneration*'—a gofynnaf i Keith Bush am sylwadau pellach—yn cynnwys pob math o daliad. A yw hynny'n gywir, Keith?

1.10 p.m.

[10] **Mr Bush:** Ydy. Yr hyn y mae'r Mesur arfaethedig yn ei wneud yw trosglwyddo swyddogaethau ynglŷn â nifer o wahanol fathau o daliadau o'r Comisiwn i'r bwrdd. Mae'r rheini yn cynnwys cyflogau, yr hyn a elwir yn y Mesur arfaethedig yn 'lwfansau'—a gwn fod peth gwrthwynebiad i'r gair hwnnw—pensiynau, cymorth ariannol i grwpiau, a'r hyn a elwir yn '*gratuities*'. Ni wn yn union beth mae '*gratuities*' i fod i olygu, ond efallai ei fod yn cynnwys pethau

Neddf Llywodraeth Cymru, a dyna pam ein bod ni yma. Y brif egwyddor, sy'n bwysig i chi yn ystod y cyfnod hwn o'r ddeddfwriaeth hon, yw sefydlu na ddylai Aelodau etholedig na'u staff bennu eu cyflogau eu hunain.

Rosemary Butler: Yr ydym i gyd yn mwynhau gwneud cyfraith ond yr ydym yma i sicrhau ein bod yn gwneud cyfraith dda. Dyna pam y byddwn yn eich croesholi y prynhawn yma. Galwaf ar Eleanor Burnham.

Eleanor Burnham: I have two questions on the National Assembly for Wales remuneration board. The committee has received evidence to suggest that further consideration be given to the title of the board, given that the term 'remuneration' is largely equated in the public's mind with pay or salary. It is also felt that it does not accurately reflect all the financial support that is available to Assembly Members, and has negative connotations. What are your views on this?

The Presiding Officer: I think that the term '*taliadau*' is completely acceptable in Welsh. I did some research into this this morning, trying to think what might be the most appropriate translation of '*remuneration*'. I think that the term '*taliadau*' in Welsh is clearer than '*remuneration*' in English. If this committee can find a better word to translate '*taliadau*', I would be very happy to consider it. '*Remuneration*' is in the 2006 Act and that is why we have used that term. As I say, please go ahead if you can find another word. I feel that the word '*remuneration*'—and I will ask Keith Bush for further comments—includes all types of payment. Is that correct, Keith?

Mr Bush: Yes. The proposed Measure transfers functions from the Commission to the board in relation to the different types of payments. Those include salaries, what are called 'allowances' in the proposed Measure—and I know that there is some objection to using that word—pensions, financial assistance for groups, and what are called '*gratuities*' in the proposed Measure. I am not sure what exactly '*gratuities*' is supposed to mean, but it perhaps includes

fel taliadau ar gyfer y sawl sy'n peidio â bod yn Aelodau o'r Cynulliad. Felly, mae'r holl ystod o gymorth ariannol yn cael ei gynnwys yn y Mesur arfaethedig.

Y cwestiwn yr oedd gennym mewn golwg wrth ddrafftio'r Mesur arfaethedig oedd a fyddem yn galw'r Mesur arfaethedig hwn yn '*the National Assembly for Wales salaries, allowances, pensions, gratuities and support for Members Measure*', ynteu a ddylem edrych am rywbedd mwy cryno? Y gair amlwg oedd y gair y mae'r Mesur arfaethedig yn ei ddefnyddio. Fel y mae'r Llywydd wedi ei awgrymu, pe bai unrhyw term arall yn cynnwys yr holl wahanol fathau o daliadau, yr wyf yn siŵr y byddem yn fodlon iawn edrych arno. Ni fyddai'n gwneud gwahaniaeth o ran effaith gyfreithiol y Mesur arfaethedig. I ddyfynnu William Shakespeare:

'What's in a name? That which we call a rose
By any other name would smell as sweet.'

[11] **Eleanor Burnham:** Mae hwn yn bwynt addas iawn i'w drafod, ac yr wyf yn falch eich bod wedi mynegi'ch barn fel yna. Mae termau eraill, er enghraifft '*second homes*', sydd ag arwyddocâd negyddol. A ydych yn dweud, felly, nad oes problem o ran newid unrhyw term os credwn fod angen disgrifiad gwell?

[12] **Y Llywydd:** Yr ydym yn trafod egwyddor y Mesur arfaethedig ar hyn o bryd, ac, felly, os hoffech ddangos yn eich adroddiad, o ran egwyddor, fod cwestiynau ynglŷn â dehongliadau unrhyw enwau, byddwn yn edrych arnynt. Yn amlwg, nid oes arnom eisiau creu deddfwriaeth sy'n annealladwy neu'n amwys; yn wir, pell y bo unrhyw amwysedd o ddeddfwriaeth. Mae'n arbennig o ddiddorol imi i fod yn creu deddfau dwyieithog, oherwydd rhaid ystyried bob amser bod llythrennedd deuol—hynny yw, y ddealltwriaeth o'r ddwy iaith yn gweithio gyda'i gilydd ar yr un pryd—yn ychwanegu at y drafodaeth. Yr ydym yn gorfol meddwl am yr hyn y mae'n ei feddwl yn y ddwy iaith, fel nad oes neb yn cael ei gamarwain. Fel y gwyddoch, yn neddfwriaeth Cymru, mewn deddfau sy'n ymweud â'r Gymraeg, ac mewn cyfraith Ewropeaidd, nid yw un fersiwn yn fwy cywir

things such as payments for those who cease to be Assembly Members. Therefore, the whole range of types of financial support is included in the proposed Measure.

The question that we had in mind when drafting the proposed Measure was whether we should call it 'the National Assembly for Wales salaries, allowances, pensions, gratuities and support for Members Measure', or should we think of something more concise? The obvious word was the one that is used in the proposed Measure. As the Presiding Officer has suggested, if there is another term that includes all these different types of payments, I am sure that we would be more than happy to consider it. It would not make a difference to the legal impact of the proposed Measure. To quote William Shakespeare:

Eleanor Burnham: This is a very appropriate point to discuss, and I am glad that you have given your opinion in that way. There are other terms, such as '*second homes*', that have negative connotations. Are you saying, therefore, that there would be no problem in changing any term if we believe that a better description was needed?

The Presiding Officer: We are currently discussing the principle of the proposed Measure, and, therefore, if you wish to show in your report that, in principle, questions arise as to the interpretations of any terms, we will look at those. Clearly, we do not wish to create legislation that is incomprehensible or ambiguous; indeed, ambiguity should be far removed from legislation. For me, it is extremely interesting to be creating bilingual legislation because you always have to consider that dual literacy—that is, the understanding that both languages work together at the same time—adds to the discussion. We have to think about what it means in both languages, so that no-one is misled. As you know, in Welsh legislation, in legislation on the Welsh language, and in European law, there is not one version that is more correct than another. So, it is important that we get the best possible wording at any

na'r llall. Felly, mae'n bwysig ein bod yn time.
cael y geiriad gorau posibl ar unrhyw adeg.

[13] **Eleanor Burnham:** Mynegwyd
pryder mewn dystiolaeth hefyd y gallai fod yn
anodd dewis pum aelod sy'n meddu ar yr
arbenigedd perthnasol, ac y byddai bwrdd llai
o dri neu bedwar aelod yn ddigonol. Beth yw
eich ymateb i hynny?

[14] **Y Llywydd:** Nid wyf yn ffan o
fyrrdau a chanddynt nifer o aelodau sy'n rhif
cyfartal. Felly, ni chredaf y byddai bwrdd o
bedwar yn gweithio. Byddai cworwm o dri
yn ei gwneud yn anodd i'r bwrdd allu
gweithio'n effeithiol. Fodd bynnag, gyda
chworwm o dri, pe na bai'n bosibl penodi
mwy na thri, mae'n weddol glir y gallai'r
bwrdd gychwyn ar ei waith. Byddai
aelodaeth o bump yn golygu bod digon mewn
nifer i'r bwrdd allu cyfarfod os bydd ambell
aelod yn gorfod bod yn absennol, ac yn
sicrhau bod digon o ystod profiad. Gwn nad
yw pawb yn hoff o Gomisiwn y Cynulliad,
ond mae'n gweithio gyda phedwar Aelod a
chadeirydd, ac yr wyf yn meddwl ei fod yn
fwrdd eithaf gweithredol. Nid wyf yn dweud
hynny am Gomisiwn y Cynulliad yn unig;
mae'r un peth yn wir am y Pwyllgor Busnes.
Mae cael bwrdd o bump i wasanaethu
anghenion 60 o Aelodau mewn gwahanol
ffyrdd yn enghraifft o'r math o niferoedd a all
weithio.

[15] **Eleanor Burnham:** Yr oedd pryder
hefyd ynglŷn â chael aelodau â'r arbenigedd
perthnasol oherwydd y gwaharddiadau ar y
sawl sy'n dymuno bod ar y bwrdd.

[16] **Y Llywydd:** Mae'r gwaharddiadau
wedi ymddangos am resymau penodol, ac y
gwnaethom drafod hyn y tro diwethaf. Os oes
teimlad bod y gwaharddiadau'n rhy llym, neu
os ydych yn teimlo bod gormod o wahardd,
ar bob cyfrif byddwn yn fodlon ystyried
unrhyw welliannau yn y cyfeiriad hwnnw.

O fy mhrofiad i gyda'r Comisiwn ers iddo
gael ei sefydlu, yr wyf yn hyderus ein bod
wedi gofyn i bobl ein cynorthwyo drwy
sefydlu paneli allanol mewn nifer o feysydd.
Yr ydym wedi cynnwys cynghorwyr allanol,
ac wedi gwahodd aelodau annibynnol i
bwylgorau archwilio, ac yn y blaen. Yr
ydym hefyd wedi sefydlu dau baner

Eleanor Burnham: Concern was expressed
in evidence that it could be difficult to choose
five members who have the relevant
expertise, and that a smaller board
comprising three or four members would be
adequate. What is your response to that?

Y Llywydd: I am not a fan of boards that
have an even number of members. Therefore,
I do not think that a board made up of four
members would work. A quorum of three
would make it difficult for the board to work
effectively. However, with a quorum of three,
if it were not possible to appoint more than
three, it is reasonably clear that the board
could start its work. I believe that a
membership of five means that there is a
sufficient number for the board to meet if
some members are absent, and ensures an
adequate depth of experience. I know that not
everyone is a fan of the Assembly
Commission, but it works with four Members
and a chair, and I believe that it is a fairly
active board. That is not only true of the
Assembly Commission; the same can be said
of the Business Committee. Having a board
of five to serve the needs of 60 Members is
an example of the kind of number that is
workable.

Eleanor Burnham: There was also concern
about appointing members with the relevant
expertise because of the exclusions applied to
those wishing to be members.

The Presiding Officer: The exclusions have
emerged for specific reasons, as we discussed
in a previous meeting. If there is a feeling
that the exclusions are too severe, or if you
feel that there are too many exclusions, I
would by all means be willing to consider
any amendments in that direction.

From my experience with the Commission
since it was set up, I am confident that we
have asked people to assist us by setting up
external panels on a number of matters. We
have included external advisers, and have
invited independent members to audit
committees, and so on. We have also
established two independent panels—and one

annibynnol—ac mae un yn weithredol ar hyn o bryd, yn edrych ar wasanaethau dwyieithog. Nid wyf yn dweud bod pobl yn cwympo dros ei gilydd i ymuno, fel pe baent yn ymgeisio ar gyfer *Cardiff's Got Talent*, neu rywbeth tebyg, ond mae pobl yn dymuno ein gwasanaethu ni. Mae pobl yn dymuno teimlo eu bod yn gallu cyfrannu at effeithlonrwydd democratiaeth Cymru, sydd yn beth braf. Yr wyf yn gobeithio y bydd y bobl a fydd â diddordeb mewn panel fel hwn yn bobl â phrofiad yn y sector preifat, y sector gwirfoddol ac mewn agweddau eraill ar y sector cyhoeddus, fel y byddai gennym bobl sydd yn brofiadol yn y maes.

[17] **Eleanor Burnham:** Pobl a fydd yn ei wneud am y rhesymau cywir—

[18] **Rosemary Butler:** Thank you. We will move to a question from Ann Jones.

[19] **Ann Jones:** From evidence received by this committee, it would seem that there is an expectation that this board will operate in an open and transparent manner. For example, it would create and maintain an accessible public website and publish its agendas, papers and minutes. Do you share that view?

[20] **The Presiding Officer:** Yes. I have huge expectations of this board, and I agree in principle with your list. However, I am not going to make any prescriptive remarks that would anticipate what the board might wish to do. I would expect a board of the quality that we need to support Welsh democracy. The least expected of such a board is for it to be as open and accessible as this institution.

[21] **Ann Jones:** Did you consider placing a duty on the board to guarantee that it operates in an open and transparent way?

[22] **The Presiding Officer:** I am not a fan of placing duties on bodies. I believe that bodies should have functions, and that the delivery of those functions should be a matter for them. Placing a duty is, in one sense, an easy thing to do, but working out what it actually means can also be an onerous task on the other side. I would, therefore, expect that the people who decide to apply for public

is currently in action, looking at bilingual services. I am not saying that people are falling over each other to participate, as though they were applying for *Cardiff's Got Talent* or something similar, but people do wish to offer their services. People want to feel as though they are contributing to the efficiency of democracy in Wales, which is a good thing. I hope that the people who express an interest in becoming members of a panel such as this will have experience of the private and voluntary sectors, and of different aspects of the public sector, so that we have people who are experienced in the field.

Eleanor Burnham: People who will be doing it for the right reasons—

Rosemary Butler: Diolch. Symudwn ymlaen at gwestiwn gan Ann Jones.

Ann Jones: O'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan y pwylgor hwn, byddai'n ymddangos bod disgwyli i'r bwrdd hwn weithredu mewn modd agored ac eglur. Er enghraifft, byddai'n creu a chynnal gwefan gyhoeddus hygrych ac yn xhyhoeddi ei agendâu, papurau a chofnodion. A ydych yn cytuno â'r farn honno?

Y Llywydd Ydwyt. Mae gennyd ddisgwyliadau enfawr o'r bwrdd hwn, a chytunaf mewn egwyddor â'ch rhestr. Fodd bynnag, nid wyf am wneud unrhyw sylwadau rhagnodol sy'n ceisio rhagweld beth allai'r bwrdd fod am ei wneud. Byddwn yn disgwyli bwrdd o'r ansawdd yr ydym ei angen i gefnogi democratiaeth Cymru. Byddai disgwyli i fwrdd o'r fath fod mor agored a hygrych â'r sefydliad hwn o leiaf.

Ann Jones: A wnaethoch ystyried rhoi dyletswydd ar y bwrdd i sicrhau ei fod yn gweithredu mewn ffordd agored ac eglur?

Y Llywydd: Nid wyf yn ffan o roi dyletswyddau ar gyrrff. Credaf y dylai cyrrff fod â swyddogaethau, ac mai nhw ddylai fod yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau hynny. Mae rhoi dyletswyddau yn beth hawdd i'w wneud, ar un ystyr, ond mae gweithio allan beth y mae hynny'n ei olygu mewn gwirionedd yn gallu bod yn dasg feichus ar y llaw arall. Byddwn, felly, yn

appointment—which is what this is—to be people who understand the way in which a democratic and open public sector works, and that they were expected to operate in that way.

[23] There will presumably be fairly detailed job specification and guidance issued to this body by the Chief Executive and Clerk of the Assembly. I am sure that that would include the expectation that the board should operate in this way.

1.20 p.m.

[24] **Keith Bush:** I would add that section 2(2)(c) of the proposed Measure requires the board to exercise its functions with a view to

[25] ‘ensuring probity, accountability, value for money and transparency with respect to the expenditure of public funds’.

[26] I interpret that as applying not just to the use of funds by Assembly Members and others, but the way in which the board itself uses public resources.

[27] **Ann Jones:** Could you clarify whether the board will be subject to the provisions of the Freedom of Information Act 2000?

[28] **The Presiding Officer:** As it stands, I do not think that the board is subject to those provisions, but the board is unlikely to function in a way that is separate from the Assembly as regards its records. Therefore, I would assume that the records of the board would be part of the information that could be gleaned by making an FOI request of the Assembly. Again, I would take further advice on that.

[29] **Mr Bush:** At the moment, the board does not fall directly under the requirements of the Freedom of Information Act 2000. That could be achieved by an amendment to the proposed Measure, but whether it is necessary to do that relates to this question of how far the records of the board would, in any event, be accessible. The board will not have an independent administrative structure.

disgwyl i'r bobl sy'n penderfynu ymgeisio am swydd gyhoeddus—a dyna yw hyn—fod yn bobl sy'n deall sut y mae sector cyhoeddus democraidd ac agored yn gweithio, a bod disgwyl iddynt weithredu felly hefyd.

Mae'n debyg y bydd manyleb swydd ac arweiniad eithaf manwl yn cael eu rhoi i'r corff hwn gan Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad. Yr wyf yn sicr y byddai hynny'n cynnwys y disgwyliad i'r bwrdd weithredu yn y ffordd hon.

Keith Bush: Byddwn yn ychwanegu ei bod yn ofynnol o dan adran 2(2)(c) o'r Mesur arfaethedig i'r bwrdd ymarfer ei swyddogaethau gyda golwg ar

‘sicrhau priodolder, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwariant cyllid cyhoeddus’.

Yn ôl fy nehongliad i, mae hynny'n berthnasol i ddefnydd Aelodau'r Cynulliad ac eraill o gronfeydd, ac i ddefnydd y bwrdd ei hun o adnoddau cyhoeddus.

Ann Jones: A allwch egluro a fydd y bwrdd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000?

Y Llywydd: Fel y mae pethau, ni chredaf fod y bwrdd yn ddarostyngedig i'r darpariaethau hynny, ond byddai'n annhebygol i'r bwrdd weithredu mewn ffordd ar wahân i'r Cynulliad o ran ei gofnodion. Felly, byddwn yn rhagdybio y byddai cofnodion y bwrdd yn rhan o'r wybodaeth a allai ddeillio yn sgil gwneud cais rhyddid gwybodaeth i'r Cynulliad. Eto, byddwn yn derbyn cyngor pellach ar hynny.

Mr Bush: Ar hyn o bryd, nid yw'r bwrdd yn uniongyrchol ddarostyngedig i ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Gellid cyflawni hynny drwy ddiwygio'r Mesur arfaethedig, ond mae a fydd angen gwneud hynny'n dibynnu ar ba mor hygyrch y bydd cofnodion y bwrdd beth bynnag. Ni fydd gan y bwrdd strwythur gweinyddol annibynnol. Bydd yn dibynnu ar staff y Comisiwn. Bydd unrhyw

It will depend on the staff of the Commission. Any records relating to the activities of the board will be in the possession of the Commission, and the Assembly is subject to the Freedom of Information Act 2000. I accept that issues can arise as to whether records are being held on behalf of one body or another, even if they are held physically by one body, and that calls for reflection, to see whether it can be made clearer that proper requests for information could be addressed directly to the board, subject to the appropriate exemptions.

[30] **Ann Jones:** Would it not have been easier to include it as an amendment, so that it is subject to the provisions of the Freedom of Information Act, rather than go through the long, convoluted business of having legal people argue about whether it is the Commission's, the board's or someone else's responsibility? Before you know where you are, you have a huge legal battle on your hands. It might be simpler to state that it is subject to the provisions of the Freedom of Information Act.

[31] **The Presiding Officer:** I think that you have just made the case, if I may say so. We are talking about principle here—and, obviously, we have to look at the detail—but if you feel like making the case, and if you agree to make the case as a legislation committee, I give you an undertaking that we will consider that most carefully. Clearly, it fits in neatly with my argument that this is to be a completely independent board. Although it is staffed by members of the Commission, that is just in order not to create further bureaucracy. If there was an issue about records being independently available in any sense, we would certainly have a look at that.

[32] **Nick Ramsay:** Moving on to the functions of the board, the committee took written evidence from Liberal Democrat and Labour support staff—because the legislation covers the role of AMs as employers as well as elected representatives—which showed that they would wish to see the proposed Measure include a formal recognition of their role as employers. Labour support staff said that they would

gofnodion a fydd yn ymneud â gweithgareddau'r bwrdd ym meddiant y Comisiwn, ac mae'r Cynulliad yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Yr wyf yn derbyn y gall materion godi o ran a yw cofnodion yn cael eu cadw ar ran un corff neu gorff arall, hyd yn oed os ydynt yn cael eu cadw yn ddiriaethol gan un corff, ac mae gofyn i ni gnoi cil ar hynny i weld a ellir ei gwneud yn fwy clir y caiff y bwrdd fynd i'r afael yn uniongyrchol â cheisiadau priodol am wybodaeth, yn amodol ar eithriadau priodol.

Ann Jones: Oni fyddai wedi bod yn haws cynnwys hwn fel diwygiad, er mwyn iddo fod yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, yn hytrach na mynd drwy'r gwaith beichus a hirfaith o gael pobl gyfreithiol i ddadlau ai'r Comisiwn, y bwrdd, neu rywun arall sy'n gyfrifol? Cyn ichi wybod beth sy'n digwydd, mae gennych frwydr gyfreithiol enfawr. Gallai fod yn haws datgan ei fod yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Y Llywydd: Credaf eich bod newydd ddadlau'r achos, os caf ddweud hynny. Yr ydym yn siarad am egwyddor yma—ac, yn amlwg, rhaid i ni edrych ar y manylion—ond os ydych yn teimlo fel dadlau'r achos, ac os ydych yn cytuno fel pwylgor deddfwriaeth i ddadlau'r achos, fe'ch sicrhaf y byddwn yn ystyried hynny'n ofalus iawn. Yn amlwg, mae'n cyd-fynd yn dwt â'm dadl i, sef os yw hwn yn fwrdd hollol annibynnol. Er ei fod yn cael ei staffio gan y Comisiwn, mae hynny'n unig er mwyn peidio â chreu biwrocratiaeth bellach. Pe bai mater yn codi yngylch cofnodion ar gael yn annibynnol mewn unrhyw fodd, byddem yn sicr yn edrych ar hynny.

Nick Ramsay: Gan symud ymlaen at swyddogaethau'r bwrdd, cymerodd y pwylgor dystiolaeth ysgrifenedig gan staff cymorth y Democratiaid Rhyddfrydol a Llafur—oherwydd mae'r ddeddfwriaeth yn cynnwys swyddogaeth ACau fel cyflogwyr yn ogystal â chynrychiolwyr etholedig—a ddangosodd y byddent am weld y Mesur arfaethedig yn cynnwys cydnabyddiaeth ffurfiol o'u swyddogaeth fel cyflogwyr. Dywedodd staff cymorth y byddent yn

[33] ‘wish to see the Measure include a duty for the proposed Board to consult staff formally and negotiate with their Trade Union representatives before making any determination’.

[34] On the back of that, will you confirm that the board will make determinations in respect of financial support for Assembly Members for the cost of employing members of their staff?

[35] **The Presiding Officer:** The answer to that question is ‘yes’. The answer to the other question, about consultation, is that I would expect any public body that was charged with ensuring effective pay and remuneration to consult with the trade unions, and the Public and Commercial Services union is the main union here. I have not consulted with PCS directly in relation to this proposed Measure, but certainly, if you would like me, as the person taking the proposed Measure through, to undertake a consultation with the trade union side in representing Assembly Members’ support staff, I would be very happy to do so. However, I do not think it necessary to place a specific duty on the independent board to consult, because I would expect that, as a surrogate employers’ organisation—which is what it is—responsible for setting the remuneration independently, it would consult with those whose remuneration it will decide. That is the key, whether it is Assembly Members, Assembly support staff or members of the Welsh public whom we all serve.

[36] Consultation by the remuneration board will be central to what it does, because how else is it to determine the appropriate mechanism? This is not just something for market testing; it has got to be proper consultation. I cannot speak for any of the trade unions here, and I would not presume to do so, but I would not be surprised if there were people in the trade unions who might welcome a less rigid form of setting the pay and conditions of Assembly Members’ support staff, and the remuneration board might want to consider such flexibility, within the appropriate safeguards. However, I would be grateful for further advice from

dymuno gweld y Mesur arfaethedig yn cynnwys dyletswydd i'r bwrdd arfaethedig ymgynghori â staff yn ffurfiol a negodi â chynrychiolwyr yr undebau llafur cyn penderfynu'n derfynol.

Yn sgîl hynny, a wnewch chi gadarnhau y bydd y bwrdd yn gwneud penderfyniadau yngylch cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad ar gyfer y gost o gyflogi aelodau o'u staff?

Y Llywydd: Yr ateb i'r cwestiwn hwnnw yw ‘Bydd’. Yr ateb i'r cwestiwn arall, ynglŷn ag ymgynghori, yw y byddwn yn disgwyl i unrhyw gorff cyhoeddus a oedd yn gyfrifol am sicrhau cyflog a thaliadau effeithiol ymgynghori â'r undebau llafur, ac Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol yw'r prif undeb yma. Nid wyf wedi ymgynghori â PCS yn uniongyrchol eto mewn perthynas â'r Mesur arfaethedig hwn, ond yn sicr, os hoffech i mi, fel y person sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig, ymgynghori â'r undebau llafur sy'n cynrychioli staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, byddwn yn fwy na bodlon gwneud hynny. Fodd bynnag, ni chredaf fod angen rhoi dyletswydd benodol ar y bwrdd annibynnol i ymgynghori, gan y byddwn yn disgwyl, fel sefydliad cyflogwyr ar ran eraill—sef yr hyn yr ydyw—sy'n gyfrifol am bennu'r taliadau yn annibynnol, y byddai'n ymgynghori â'r rhai hynny y bydd eu taliadau yn cael eu pennu ganddo. Mae hynny'n allweddol, boed yn Aelodau'r Cynulliad, staff cymorth y Cynulliad neu aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru yr ydym i gyd yn eu gwasanaethu.

Bydd ymgynghori gan y bwrdd taliadau yn ganolog i'r hyn a wna, oherwydd sut bydd yn pennu'r mecanwaith priodol fel arall? Nid yw hyn yn rhywbeth ar gyfer profi'r farchnad yn unig; rhaid ymgynghori'n iawn. Ni allaf siarad ar ran unrhyw undeb llafur yma ac ni fyddwn yn rhfygu gwneud hynny, ond ni fyddwn yn synnu pe bai pobl yn yr undebau llafur yn croesawu ffordd mwy hyblyg o bennu cyflogau ac amodau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, a gallai'r bwrdd taliadau ystyried hyblygrwydd o'r fath, o fewn y mesurau diogelu priodol. Fodd bynnag, byddwn yn ddiolchgar am gyngor pellach gennych chi, fel pwyllgor, ar hyn os

you, as a committee, on this if you have evidence from trade unions, or the main union, PCS, representing the Assembly Members' support staff, which would be helpful to our deliberations on this proposed Measure.

[37] **Eleanor Burnham:** I am delighted that you have given that reply. Given that we are in the vanguard of a new era of openness and transparency and all that, are you hopeful that the wage structures that appertain to our support staff will be given a thorough airing and perhaps even benchmarked with equivalent capacity or working expectation within the Commission or the civil service and that, when the media see this, they will not see it as Assembly Members trying to line their pockets, but as Assembly Members being responsible employers—

[38] **Rosemary Butler:** Could you not use emotive language like that? Others do, but it is best that we do not.

[39] **Eleanor Burnham:** I am trying my best. I think that you understand what I am saying, that we should be seen to be responsible employers, doing our very best for our staff and not what is best for us, as Assembly Members. I am not allowed to say any more, but do you understand that and agree with me that this is a very opportune moment?

[40] **Y Llywydd:** Atebaf yn Gymraeg gan fod y dyfyniad yr wyf am ei roi o destun Cymraeg y Mesur arfaethedig. O dan adran 2(2), ar swyddogaethau'r bwrdd:

[41] 'Rhaid i'r bwrdd arfer ei swyddogaethau gyda golwg ar wireddu'r amcanion canlynol—

[42] (b) darparu adnoddau ar gyfer aelodau'r Cynulliad sy'n ddigonol i'w galluogi i arfer eu swyddogaethau fel aelodau o'r Cynulliad'.

[43] Mae hynny, yn amlwg, yn cynnwys darparu ar gyfer staff. Mae'n gwbl hanfodol bod Aelodau Cynulliad yn gallu caffael a recriwtio'r staff gorau sifil, a gweithredu

oes gennych dystiolaeth gan undebau llafur, neu'r brif undeb, PCS, sy'n cynrychioli staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, a fyddai'n ddefnyddiol i'n trafodaethau ar y Mesur arfaethedig hwn.

Eleanor Burnham: Yr wyf yn falch iawn eich bod wedi rhoi'r ateb hwnnw. O ystyried ein bod yn arwain y ffordd yn yr oes newydd o ddisgwylledd ac eglurder ac ati, a ydych yn obeithiol y bydd y strwythurau cyflog sy'n ymwneud â'n staff cymorth yn cael eu gwyntyllu'n iawn a hyd yn oed yn cael eu meincnodi o bosibl yn erbyn yr un gallu neu ddisgwyliadau gwaith o fewn y Comisiwn neu'r gwasanaeth sifil a phan fydd y cyfryngau yn gweld hyn, na fyddant yn ei weld fel Aelodau'r Cynulliad yn ceisio llenwi eu pocedi ond yn bod yn gyflogwyr cyfrifol—

Rosemary Butler: Oni allech ddefnyddio iaith emosynol fel hynny? Mae eraill yn gwneud, ond byddai'n well pe na baem ni.

Eleanor Burnham: Yr wyf yn gwneud fy ngorau. Credaf eich bod yn deall yr hyn yr wyf yn ei ddweud, y dylid ein gweld fel cyflogwyr cyfrifol, yn gwneud ein gorau glas dros ein staff ac nid dros ein hunain yn unig, yn Aelodau'r Cynulliad. Nid wyf yn cael dweud mwy, ond a ydych yn deall hynny ac yn cytuno â mi bod hon yn adeg amserol iawn?

The Presiding Officer: I will answer in Welsh, because the quotation that I will give is from the Welsh text of the proposed Measure. Under section 2(2), on the functions of the board:

'The board must exercise its functions with a view to achieving the objectives of—

(b) providing Assembly members with resources which are adequate to enable them to exercise their functions as Assembly Members'.

That, of course, includes providing for staff. It is vital that Assembly Members should be able to recruit the best possible staff and act towards them as appropriate and careful

tuag atynt fel cyflogwyr priodol a gofalus. Fe'ch sicrhaf fod adran 2(2)(b), yn ein dehongliad ni, yn ffordd o sicrhau staff o ansawdd.

1.30 p.m.

[44] Mae hynny'n golygu y byddai'r bwrdd yn rhydd, mewn ymgynghoriad ag Aelodau ac undebau staff cynorthwyol, i edrych o'r newydd ar yr holl delerau, oherwydd y mae meysydd diddorol a phwysig yma ynglŷn â gweithio'n rhan amser, gweithio gartref, hyblygrwydd amser gweithio ac oriau gwaith—yn enwedig am ein bod yn gweithio tymhorau anghytbwys o ran nifer yr oriau gwaith. Nid wyf yn meddwl ein bod wedi twtsiad â'r rheini mewn gwirionedd. Efallai y gallem fod yn fwy arloesol byth fel cyflogwyr drwy ddilyn hyn. Efallai y byddai'n help hefyd i ddatblygu arfer da ymhlið y swyddogion sy'n gweithio'n uniongyrchol i'r Comisiwn. Mae pob peth yn bosibl, oherwydd cael yr arfer gorau mewn cyflogaeth i aelodau sy'n gweithio i gorff democrataidd yw'r amcan.

[45] **Nick Ramsay:** This proposed Measure covers a really important area, because the focus is understandably on us as elected Members, but not necessarily on the important role of staff and the importance of maintaining their standards. I am sure that I speak for all the AMs here when I say that we would not be here today, doing this, if we did not have our staff supporting us, so we are concerned about it.

[46] Presiding Officer, you have touched on the question that I was going to ask in relation to responsibilities. The committee has received evidence that suggests that full and effective consultation should take place with Assembly Members and their staff before the board makes any determinations that might affect them. What are your views on this and, in particular, what consideration did you give to including in the proposed Measure a requirement on the board to consult in that way?

[47] **The Presiding Officer:** Again, the whole purpose of the remuneration board is to undertake a proper assessment of the remuneration needs. The whole tenor of

employers. I assure you that section 2(2)(b), in our interpretation, is a way of securing high-quality staff.

That means that the board will be free, in consultation with Members and unions representing support staff, to look anew at all the terms because there are interesting and important areas in this to do with part-time working, homeworking, flexible working times and working hours—especially as our work follows irregular term times with regard to working hours. I do not think that we have touched on those in all honesty. Perhaps we could be even more innovative as employers by following that up. Perhaps it would be helpful, too, to develop good practice among officials who work directly for the Commission. Everything is possible, because the aim is to have the best employment practice for those who work for a democratic organisation.

Nick Ramsay: Mae'r Mesur arfaethedig hwn yn cynnwys maes pwysig iawn, oherwydd mae'r sylw, wrth reswm, arnom ni fel Aelodau etholedig, ond nid o reidrwydd ar rôl bwysig staff a phwysigrwydd cynnal eu safonau. Yr wyf yn sicr fy mod yn siarad ar ran pob AC yma wrth ddweud na fyddem yma heddiw, yn gwneud hyn, pe na bai gennym ein staff yn ein cynorthwyo, felly yr ydym yn bryderus am y mater.

Lwydd, yr ydych wedi lled gyfeirio at y cwestiwn yr oeddwn am ei ofyn mewn perthynas â chyfrifoldebau. Mae'r pwylgor wedi derbyn dystiolaeth sy'n awgrymu y dylid cyfathrebu'n llawn ac yn effeithiol gydag Aelodau'r Cynulliad a'u staff cyn i'r bwrdd wneud unrhyw benderfyniadau a allai effeithio arnynt. Beth yw eich barn ar hyn ac, yn benodol, a wnaethoch chi ystyried cynnwys yn y Mesur arfaethedig ofyniad ar y bwrdd i ymgynghori fel hyn?

Y Llywydd: Eto, holl ddiben y bwrdd taliadau yw cynnal asesiad trylwyr o'r anghenion o ran taliadau. Mae swm a sylwedd adran 2, yr ydym wedi dyfynnu

section 2, which we have been quoting from, places duties on the board to ensure proper regard for all the interests involved. I think that it goes without saying.

[48] **Nick Ramsay:** Was that adequate? What you just quoted sounded fine, but does 'all the interests involved' cover them all?

[49] **The Presiding Officer:** Yes, and I will take that a little further. Good industrial relations practice means proper consultation. That means consultation with employees, and it also means consultation with all the stakeholders who are affected. That is the very big one. There are some similar bodies, such as the UK Independent Parliamentary Standards Authority, which is known, affectionately or not, as IPSA. Some of these bodies have detailed requirements to consult in the legislation. If you feel that we should put in our proposed Measure further clarification of what consultation is required, we will consider it very seriously. However, as I said, I expect this board, as a creature of Welsh democracy, to be at the sharpest possible end of human resource and finance probity, which means getting really involved with people to ensure that their pay and conditions give them the job satisfaction that should come with working for a democratic body.

[50] I completely concur. I can sit here only because there is a person, for whom I have the highest regard, managing my office in the constituency. Otherwise, I could not do my job. That is true for us all, here in Cardiff bay and in our constituencies. I can say that I do not believe that our present systems, certainly the pay scales and the way in which we vary them, reflect the responsibility that our office staff discharge for us as Assembly Members. That is my view as an Assembly Member for a constituency. Obviously, it has a bearing on my thinking as Presiding Officer, especially as chair of the Commission, and as the Member taking this proposed Measure through. I want to make sure that this proposed Measure gives us the opportunity to recognise the contribution of our staff much more substantially.

ohni, yn rhoi dyletswydd ar y bwrdd i sicrhau ei fod yn ystyried yn fanwl yr holl fuddion dan sylw. Credaf fod hynny'n hollo amlwg.

Nick Ramsay: A oedd hynny'n ddigonol? Yr oedd yr hyn yr ydych newydd ei ddyfynnu i'w weld yn iawn, ond a yw 'yr holl fuddion dan sylw' yn eu cwmpasu i gyd?

Y Llywydd: Ydy, ac yr wyf am drafod hynny ychydig ymhellach. Mae ymarfer cysylltiadau diwydiannol da yn golygu ymgynghori trylwyr. Mae hynny'n golygu ymgynghori â gweithwyr cyflogedig ac â'r holl randdeiliaid yr effeithir arnynt. Dyna'r un mawr iawn. Mae rhai cyrff tebyg, fel Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol y DU, neu'r IPSA, fel y'i gelwir yn annwyl neu beidio. Mae gan rai o'r cyrff hyn ofynion manwl i ymgynghori yn y ddeddfwriaeth. Os ydych yn teimlo y dylem gynnwys yn ein Mesur arfaethedig eglurhad pellach o ba fath o ymgynghori sy'n ofynnol, byddwn yn ei ystyried yn ddifrifol iawn. Fodd bynnag, fel y dywedais, yr wyf yn disgwyl i'r bwrdd hwn, fel creadur o ddemocratiaeth Cymru, sicrhau'r cywirdeb mwyaf possibl o ran adnoddau dynol a chyllid, sy'n golygu ymgysylltu'n wirioneddol â phobl i sicrhau bod eu cyflog a'u hamodau'n rhoi'r boddhad iddynt yn eu swyddi sy'n briodol wrth weithio i gorff democraidd.

Yr wyf yn cytuno'n llwyr. Yr unig reswm y gallaf eistedd yma yw am fod person, y mae gennyl y parch mwyaf iddo, yn rheoli fy swyddfa yn yr etholaeth. Fel arall, ni allwn wneud fy ngwaith. Mae hynny'n wir i ni i gyd, yma ym mae Caerdydd ac yn ein hetholaethau. Gallaf ddweud nad wyf yn credu fod ein systemau cyfredol, yn sicr y cyfraddau cyflog a'r ffordd yr ydym yn eu hamrywio, yn adlewyrchu'r cyfrifoldebau y mae ein staff swyddfa yn eu hysgwyddo i ni fel Aelodau'r Cynulliad. Dyna fy marn fel Aelod Cynulliad dros etholaeth. Yn amlwg, mae'n llywio'r ffordd yr wyf yn meddwl fel Llywydd, yn enwedig fel cadeirydd y Comisiwn, ac fel Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig hwn. Yr wyf am sicrhau bod y Mesur arfaethedig hwn yn rhoi'r cyfle i ni roi llawer mwy o gydnabyddiaeth i'n staff am eu cyfraniad.

[51] **Nick Ramsay:** That has rolled very neatly into the last question that I wanted to ask in this section, with your approval, Chair.

[52] **Rosemary Butler:** Are you on the same question, or have you moved on?

[53] **Nick Ramsay:** It is the same question.

[54] Do you envisage the board setting the salaries and determining the roles of support staff just as for Assembly Members?

[55] **The Presiding Officer:** I think that there has to be flexibility here. It is for Members to determine their form of work as individual Members. However, I would certainly expect there to be safeguards and guidance on how that would happen. There should also be flexibility in the working conditions, working hours, homeworking as opposed to office working, and so on. There are all sorts of best practices of employment that the board should be pursuing.

[56] **Rosemary Butler:** To expand on that slightly, we are talking about a consultation after the board has made decisions and had discussions arising out of the consultation. Will there be an opportunity for us to be more proactive and to put suggestions to the board so that it can work on them?

[57] **The Presiding Officer:** I expect so. Again, I am anticipating what the board might do, but everyone around me seems to be nodding—thank you, Dianne. My view is that this is going to be a top-quality public sector employing agency, if you like, working independently of us on our behalf and, ultimately, on behalf of the quality of Welsh democracy and the people of Wales. I cannot repeat that often enough. So, that is why it is going to be there. Therefore, it will have to be a consultative body. It will also be open to receive information. We have discussed already that there will be a website and that there will be staff in the Assembly Commission structure—this is what we currently envisage—who will be dedicated to this organisation, just as we now have dedicated staff working alongside the

Nick Ramsay: Mae hynny wedi ein harwain yn daclus at y cwestiwn olaf yr oeddwn am ei ofyn yn yr adran hon, gyda sêl eich bendith, Gadeirydd.

Rosemary Butler: A ydych ar yr un cwestiwn, neu a ydych wedi symud ymlaen?

Nick Ramsay: Yr un cwestiwn ydyw.

A ydych yn rhagweld y bydd y bwrdd yn pennu cyflogau a swyddogaethau staff cymorth yn ogystal ag Aelodau'r Cynulliad?

Y Llywydd: Credaf fod yn rhaid cael hyblygrwydd yma. Cyfrifoldeb Aelodau yw penderfynu ar sut y maent yn gweithio fel Aelodau unigol. Fodd bynnag, byddwn yn sicr yn disgwyl mesurau diogelwch ac arweiniad ar sut y dylai hynny ddigwydd. Dylai fod hyblygrwydd o ran amodau gwaith, oriau gwaith, gweithio o gartref yn hytrach na gweithio yn y swyddfa, ac ati. Mae pob math o arferion gorau o ran cyflogaeth y dylai'r bwrdd fynd i'r afael â hwy.

Rosemary Butler: I ymhelaethu mymryn ar hynny, yr ydym yn siarad am ymgynghori ar ôl i'r bwrdd wneud penderfyniadau a chynnal trafodaethau yn sgîl yr ymgynghori. A fydd cyfle i ni fod yn fwy rhagweithiol ac i gyflwyno awgrymiadau gerbron y bwrdd er mwyn iddo allu gweithio arnynt?

Y Llywydd: Byddwn yn disgwyl hynny. Eto, yr wyf yn rhagweld yr hyn y gallai'r bwrdd ei wneud, ond ymddengys fod pawb o'm cwmpas yn nodio—diolch, Dianne. Yn fy marn i, bydd hon yn asiantaeth gyflogi sector cyhoeddus o'r radd flaenaf, os dymunwch, yn gweithio'n annibynnol arnom ni ar ein rhan ac, yn y pen draw, ar ran ansawdd democratiaeth Cymru a phobl Cymru. Ni allaf bwysleisio hynny ddigon. Felly, dyna pam y bydd yno. Felly, bydd yn gorfol bod yn gorff ymgynghorol. Bydd hefyd yn agored i dderbyn gwybodaeth. Yr ydym wedi trafod eisoes y bydd gwefan ac y bydd staff yn strwythur Comisiwn y Cynulliad—dyna y rhagwelwn ar hyn o bryd—a fydd wedi'u neilltuo i'r sefydliad hwn, yn union fel y mae gennym staff wedi'u neilltuo yn awr yn gweithio ochr yn ochr â'r comisiynydd

independent commissioner for standards, although that is a different kind of person. So, those people would be available to receive information or concerns from Members or, indeed, from members of the public at any time, because this would be a public body.

[58] **Eleanor Burnham:** In the same vein, we are living in difficult and challenging times, both financially and in the context of perception. Do you envisage that this new body will have to take on board the firm commitment of the previous panel that, for instance, the salary rate for an Assembly Member and, in the same context, staff should not be increased, or whatever? You have made an important commitment, and many of us feel as employers that some of our staff are not being remunerated for the complexity of their work. How do those two tensions play out in the minefield of moving forward to be in the vanguard of all this?

[59] **The Presiding Officer:** The principle that you have to be in the vanguard, as you said or that you have to be an effective and fair employing agency as a remuneration board does not necessarily contradict the context in which we are currently operating, given the squeeze on public funding. I would have thought that, in a situation of a squeeze on public funding, where it is patently obvious that the Assembly Commission cannot spend a greater budget proportionately than is being spent on Welsh public services—and I have said this before, if not here, certainly to the Finance Committee—there is a constraint on us all, but that is also the context in which we have to operate, being as fair as we can in what we do and making sure that we have value for money at all times. That is how I would respond to that.

[60] This all emphasises the importance of having an independent remuneration body that serves the people of Wales, the Assembly and its employees, because it will have to operate in the context of Welsh public services, the local government settlement and other areas of public policy. You cannot expect it not to take account of those things, but it will do so having studied most carefully the possible options for

safonau annibynnol, er bod hwnnw'n fath gwahanol o berson. Felly, byddai'r bobl hynny ar gael i dderbyn gwybodaeth neu bryderon gan Aelodau neu, yn wir, gan aelodau'r cyhoedd ar unrhyw adeg, gan y byddai hwn yn gorff cyhoeddus.

Eleanor Burnham: Ar yr un trywydd, yr ydym yn byw mewn oes anodd a llawn her, yn ariannol ac yng nghyd-destun amgyffred pobl. A ydych yn rhagweld y bydd y bwrdd newydd hwn yn gorfod ystyried ymrwymiad cyntaf y panel blaenorol, er enghraifft, na ddylai cyfradd cyflogau Aelodau'r Cynulliad ac, yn yr un cyd-destun, staff gael ei chynyddu, neu beth bynnag? Yr ydych wedi gwneud ymrwymiad pwysig, ac mae llawer ohonom yn teimlo fel cyflogwyr nad yw rhai o'n staff yn cael eu talu am gymhlethdod eu gwaith. Sut mae'r tensiynau hynny'n cyd-fynd ym mater dyrys symud ymlaen i fod ar flaen y gad yn hyn i gyd?

Y Llywydd: Nid yw'r egwyddor bod yn rhaid i chi fod ar flaen y gad, fel y dywedasoch neu fod yn rhaid i chi fod yn asiantaeth gyflogi effeithiol a theg fel bwrdd taliadau o reidrwydd yn gwrth-ddweud y cyd-destun yr ydym yn gweithredu o'i fewn ar hyn o bryd, o ran y pwysau ar arian cyhoeddus. Byddwn wedi credu mewn sefyllfa o bwysau ar arian cyhoeddus, lle mae'n holol amlwg na all Comisiwn y Cynulliad wario mwy o gyllideb yn gymesur na'r hyn sy'n cael ei wario ar wasanaethau cyhoeddus Cymru—ac yr wyf wedi dweud hyn eisoes, os nad yma, yn sicr wrth y Pwyllgor Cyllid—mae cyfyngiad arnom i gyd, ond hwnnw hefyd yw'r cyd-destun y mae'n rhaid i ni weithredu o'i fewn, gan fod mor deg ag y gallwn yn yr hyn a wnawn a gofalu bod gennym werth am arian drwy'r amser. Dyna sut y byddwn yn ymateb i hynny.

Mae hyn i gyd yn pwysleisio pwysigrwydd cael corff taliadau annibynnol sy'n gwasanaethu pobl Cymru, y Cynulliad a'i weithwyr cyflogedig, gan y bydd yn rhaid iddo weithredu yng nghyd-destun gwasanaethau cyhoeddus Cymru, y setliad llywodraeth leol a meysydd polisi cyhoeddus eraill. Ni allwch ddisgwyl iddo beidio ag ystyried y pethau hynny, ond bydd yn gwneud hynny ar ôl astudio'n ofalus iawn yr

ensuring that the best value for public money also includes the best job satisfaction for the people who are working in that public service.

[61] **Rosemary Butler:** Nick, have you finished your session? I see that you have, so we will move to Ann Jones.

1.40 p.m.

[62] **Ann Jones:** I turn to section 3, which is entitled 'Disqualification from membership of the Board'. The committee has received evidence from a number of witnesses that questions the appropriateness of disqualifying members of the former independent review panel. In fact, Sir Roger Jones called it 'churlish' last week. Others have made similar comments that raise concerns that we could be limiting the field of potential candidates who have the necessary expertise and practical experience. Do you have any views on that, particularly Sir Roger's comment about churlishness?

[63] **The Presiding Officer:** I have no views on the comments made by my friend, Sir Roger Jones, on anything because he no longer works for me.

[64] **Ann Jones:** So, he felt quite safe in saying what he said last week.

[65] **The Presiding Officer:** He is an independent person in his own right. We come from the same part of the world. Meirionnydd people always fall out with each other publicly and privately, so I will not make any big point about that. However, when the proposed Measure was being prepared—and I take full responsibility for the text as you see it because it was worked on over the summer, particularly in August, when we had recently taken stock of the report and were trying to implement it—there was a view that we wanted to make sure that this was a different creature and not an extension of the panel, and that it would be fresh pairs of eyes, and so forth. I have made it clear in what I have said that I do not want to impose too many duties on this body, and I do not want to put too many inhibitions in the

opsiynau posibl ar gyfer sicrhau bod y gwerth gorau am arian cyhoeddus hefyd yn cynnwys y boddhad gorau yn eu swyddi ar gyfer y bobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth cyhoeddus hwnnw.

Rosemary Butler: Nick, a ydych wedi gorffen eich sesiwn? Gwelaf eich bod wedi, felly symudwn ymlaen at Ann Jones.

Ann Jones: Yr wyf yn troi at adran 3, sef 'Anghymwyso rhag bod yn aelod o'r Bwrdd'. Mae'r pwylgor wedi derbyn dystiolaeth gan nifer o dystion sy'n cwestiynu priodoldeb anghymwyso aelodau o'r panel adolygu annibynnol. Yn wir, galwodd Syr Roger Jones y sefyllfa yn '*churlish*' yr wythnos diwethaf. Mae eraill wedi gwneud sylwadau tebyg sy'n codi pryderon y gallem fod yn cyfyngu'r maes o ymgeiswyr posibl sydd â'r arbenigedd angenrheidiol a'r profiad ymarferol. A oes gennych unrhyw farn ar hynny, yn enwedig sylwadau Syr Roger?

Y Llywydd: Nid oes gennyd farn ar y sylwadau a wnaed gan fy nghyfaill, Syr Roger Jones, ar unrhyw beth gan nad yw'n gweithio imi bellach.

Ann Jones: Felly, yr oedd yn teimlo'n gymharol ddiogel yn dweud yr hyn a wnaeth yr wythnos diwethaf.

Y Llywydd: Mae'n berson cwbl annibynnol. Yr ydym yn dod o'r un rhan o'r byd. Mae pobl Meirionnydd byth a beunydd yn cweryla gyda'i gilydd yn gyhoeddus ac yn breifat, felly nid wyf am wneud môr a mynydd o hynny. Fodd bynnag, wrth baratoi'r Mesur arfaethedig—ac yr wyf yn cymryd cyfrifoldeb llawn am y testun fel yr ydych yn ei weld oherwydd bûm yn gweithio arno dros yr haf, yn enwedig ym mis Awst, ar adeg pan fuom yn pwysa a mesur yr adroddiad ac yn ceisio ei roi ar waith—yr oedd barn ein bod am sicrhau bod hwn yn greadur gwahanol ac nad oedd yn estyniad o'r panel, ac y byddai'n bâr o lygaid newydd, ac yn y blaen. Yr wyf wedi pwysleisio yn yr hyn yr wyf wedi ddweud nad wyf am roi gormod o ddyletswyddau ar y corff hwn, ac nid wyf am ei gyfyngu'n ormodol yn y ffordd y bydd yn

way of its working. Similarly, there have been a number of questions, to which I have listened very carefully, about the range of available candidates. It would be a mistake if we were, in law, particularly in the new Welsh law, to stop people who wanted to help us in our work from being able to do that. If you think, as a committee, that there is too much in section 3, entitled 'Disqualification from membership of the Board', and particularly the relevant Schedule 1, do tell us and we will cut them down.

[66] **Ann Jones:** It is all right. I am happy with it.

[67] **The Presiding Officer:** There we are then.

[68] **Ann Jones:** I will move on. The other side of the coin is that the committee has received evidence that queries why Members and former Members of other parliaments and assemblies have not been disqualified from membership of the board. Obviously, there are two sides to this coin. What consideration, if any, did you give to disqualifying Members and former Members of other parliaments and assemblies?

[69] **The Presiding Officer:** I am afraid that I did not think that this was an issue. I would like Keith to give me some legal advice live on this issue.

[70] **Mr Bush:** I do not think that we have really thought very deeply about the possibility of Members of Parliament moonlighting by being members of the—

[71] **The Presiding Officer:** You said it. [Laughter.]

[72] **Mr Bush:** The thinking behind the disqualifications—and I think that we have probably explained this on a previous occasion—is based on those who would be affected or might be seen as being affected by the determinations of the board, and other people who hold certain public offices and distinct roles. Current Assembly Members would be disqualified. There is no disqualification of former Assembly Members, as long as they are not candidates

gweithio. Yn yr un modd, bu nifer o gwestiynau, ac yr wyf wedi gwrando'n astud arnynt, am yr amrywiaeth o ymgeiswyr sydd ar gael. Byddai'n gamgymeriad pe baem, yn gyfreithiol, yn enwedig yng Nghyfreithiau Newydd Cymru, yn rhwydro pobl a oedd am ein cynorthwyo yn ein gwaith rhag gallu gwneud hynny. Os ydych chi'n credu, fel pwylgor, bod gormod yn adran 3, sef 'Anghymwyso rhag bod yn aelod o'r Bwrdd', ac yn arbennig yr Atodlen 1 berthnasol, dywedwch wrthym ac fe wnawn ei chwtogi.

Ann Jones: Mae'n iawn. Yr wyf yn hapus gyda hi.

Llywydd: Dyna ni, felly.

Ann Jones: Yr wyf am symud ymlaen. Ochr arall y geiniog yw bod y pwylgor wedi derbyn tystiolaeth sy'n holi pam nad yw Aelodau a chyn-Aelodau seneddau a chynulliadau eraill wedi'u hanghymwyso rhag bod yn aelodau o'r bwrdd. Yn amlwg, mae dwy ochr i'r geiniog hon. Pa ystyriaeth, os o gwbl, a ydych wedi'i rhoi i anghymwyso Aelodau a chyn-Aelodau o seneddau a chynulliadau eraill?

Y Llywydd: Mae'n ddrwg gennyf ond nid oeddwn o'r farn fod hwn yn bwnc trafod. Hoffwn i Keith roi peth cyngor cyfreithiol byw i mi ar y mater hwn.

Mr Bush: Nid wyf yn credu ein bod wedi meddwl yn ddwys iawn am y posibilrwydd o Aelodau Seneddol yn gwneud gwaith ar y slei drwy fod yn aelodau o'r—

Llywydd: Chi ddywedodd hynny. [Chwerthin.]

Mr Bush: Mae'r syniadaeth wrth wraidd yr anghymwyso—a chredaf ein bod wedi egluro hyn ar achlysur blaenorol o bosibl—yn seiliedig ar y rhai hynny a fyddai'n cael eu heffeithio neu y gellid ystyried eu bod yn cael eu heffeithio gan benderfyniadau'r bwrdd, a phobl eraill mewn swyddi cyhoeddus penodol a swyddi ar wahan. Byddai Aelodau presennol o'r Cynulliad yn cael eu hanghymwyso. Ni fyddai cyn-Aelodau'r Cynulliad yn cael eu hanghymwyso, cyhyd

for re-election. However, what about current Members of other parliamentary bodies? As I said, we did not really think that it was an issue that was likely to arise in practice and, therefore, one can probably say that it falls into the category of situations where those who select the members of the board for appointment would be extremely unlikely to think a Member of the Northern Ireland Assembly, a Member of Parliament or whatever, with their other commitments, suitable to serve on the board. We think that it is a matter for the selection process rather than having an unnecessary disqualification that, really, will not arise in practice.

[73] **Ann Jones:** You started to touch on making future amendments to Schedule 1. Is there such a provision? For example, if we pass the proposed Measure and leave Schedule 1 as it stands, and in five or six years' time, we feel that the disqualification needs to be expanded or reduced, is there any way in which to do that?

[74] **The Presiding Officer:** By then, of course, this proposed Measure will have become an Act, hopefully, if we have a successful referendum, so, yes, it will be amendable like all other Welsh law.

[75] **Mr Bush:** Ann Jones raises an interesting point, because if this proposed Measure were being put forward by Ministers and had that kind of list in it, we would often see some power to amend that list by Order. This is rather different, however. It is unique, and the issue is the procedure for amending it. If committee members feel that it is an important enough issue, we could certainly consider that, because, as things stand, if one wanted to amend it—for instance, if some kind of new position, such as a new officeholder, were to be created in relation to Wales and one wanted to disqualify that person—the only current mechanism for doing so would be through an amendment Measure. So, you would have to go through the whole process of amending the Measure, or it could be tagged onto some other piece of legislation that was going through the process. It is an important issue, which I would like to have the time to reflect on and consider in due course.

ag nad ydynt yn ymgeiswyr i gael eu hailethol. Fodd bynnag, beth am Aelodau presennol o gyrrf seneddol eraill? Fel y dywedais, nid oeddem mewn gwirionedd yn credu bod hwn yn bwnc a oedd yn debygol o godi yn ymarferol ac felly gallich ddweud ei fod yn perthyn i'r categori o seyllfaoedd lle y byddai'r sawl sy'n penodi aelodau'r bwrdd yn annhebygol iawn o feddwl y byddai Aelod o Gynulliad Gogledd Iwerddon, Aelod Seneddol neu fel arall, gyda'u hymrwymiadau, yn berson addas i wasanaethu ar y bwrdd. Credwn ei fod yn fater i'r broses ddethol yn hytrach na chael anghymwys diangen na fydd yn digwydd yn ymarferol.

Ann Jones: Yr ydych wedi lled grybwyl gwneud diwygiadau yn y dyfodol i Atodlen 1. A oes darpariaeth o'r fath? Er enghraifft, os ydym yn pasio'r Mesur arfaethedig ac yn gadael Atodlen 1 fel ag y mae ar hyn o bryd, ac ymhen pum neu chwe blynedd, ein bod yn teimlo bod angen ehangu neu leihau ar yr anghymwys, a oes ffordd o wneud hynny?

Y Llywydd: Erbyn hynny, wrth gwrs, bydd y Mesur arfaethedig hwn yn Ddeddf, gobeithio, os ydym yn cael refferendwm llwyddiannus, felly, bydd modd ei diwygio fel pob cyfraith arall yng Nghymru.

Mr Bush: Mae Ann Jones yn gwneud pwyt diddorol, oherwydd pe bai'r Mesur arfaethedig hwn yn cael ei gyflwyno gan Weinidogion a bod ganddo restr fel hynny ynddo, byddem yn aml yn gweld rhywfaint o bŵer i ddiwygio'r rhestr honno drwy Orchymyn. Mae hyn yn eithaf gwahanol, fodd bynnag. Mae'n unigryw, a'r mater yw'r weithdrefn ar gyfer ei ddiwygio. Os yw aelodau'r pwylgor yn teimlo ei fod yn fater digon pwysig, gallem yn sicr ystyried hynny, oherwydd, fel y mae pethau ar hyn o bryd, pe bai rhywun am ei ddiwygio—er enghraifft, pe bai rhyw fath o swydd newydd, fel deiliad swydd newydd, yn cael ei chreu mewn perthynas â Chymru a bod rhywun am anghymwys o'r person hwnnw—yr unig fecanwaith cyfredol ar gyfer gwneud hynny fyddai drwy ddiwygio'r Mesur. Felly, byddai'n rhaid i chi fynd drwy'r broses gyfan o ddiwygio'r Mesur, neu gellid ei gynnwys gyda deddfwriaeth arall a oedd yn mynd rhagddi. Mae'n fater pwysig, a hoffwn gael

yr amser i'w bwys o a'i fesur a'i ystyried yn iawn.

[76] **The Presiding Officer:** I want to make it clear that, in principle, I am not in favour of giving Order-making powers to individual Members of the Assembly. Ministers having them is bad enough. [Laughter.] However, there is a reason why there are such things as subordinate legislation powers, and I am not sure whether, for practical reasons, it might be worth looking at that. So, if you are asking us, 'Will you please have a look at this?', you have heard what Keith has said and I agree with him.

[77] **Ann Jones:** It would be helpful if we could have a note on that before we come to the report stage of this proposed Measure.

[78] **Rosemary Butler:** We will certainly get the advice that we need. Val, did you want to add anything to that?

[79] **Val Lloyd:** I was just going to ask for a note on that as well. I now turn to section 4, which is the 'Appointment of the members of the Board'. In your evidence to the committee in December, you suggested that it was inappropriate for the board to be appointed by Assembly Members and implied that that could undermine its independence. If that is the case, why have you chosen a different approach for the statutory commissioner for standards, who is also independent of the Assembly but is appointed by the Assembly in Plenary?

[80] **The Presiding Officer:** I have the defence that, although I produced some amendments to the National Assembly for Wales Commissioner for Standards Measure 2009 to strengthen it on behalf of the Commission, I did not issue the instructions there, although Keith will explain why it was different. It was the Committee on Standards of Conduct that did that. The main difference between the two is that I see the commissioner for standards, particularly the new statutory commissioner, as a national officer. Therefore, it is appropriate for that person, along with another small category of people, including the Auditor General for Wales, the Chief Executive and Clerk of the

Y Llywydd: Yr wyf am ei gwneud yn glir nad wyf, mewn egwyddor, o blaid rhoi pwerau gwneud Gorchmynion i Aelodau unigol o'r Cynulliad. Mae'r ffaith bod gan Weinidogion y pwerau hynny yn ddigon. [Chwerthin.] Fodd bynnag, mae rheswm pam mae pethau fel pwerau is-ddeddfwriaeth, ac nid wyf yn sicr a fyddai, am resymau ymarferol, yn werth edrych ar hynny. Felly, os ydych yn gofyn i ni, 'A fydd ech crystal â bwrw golwg ar hyn?', yr ydych wedi clywed yr hyn y mae Keith wedi'i ddweud ac yr wyf yn cytuno ag ef.

Ann Jones: Byddai'n ddefnyddiol pe baem yn gallu cael nodyn ar hynny cyn i ni ddod at gyfnod adroddiad y Mesur arfaethedig hwn.

Rosemary Butler: Byddwn yn sicr yn cael y cyngor sydd ei angen arnom. Val, a oeddech chi am ychwanegu unrhyw beth at hynny?

Val Lloyd: Yr oeddwn am ofyn am nodyn ar hynny hefyd. Yr wyf yn awr am droi at adran 4, sef 'Penodi aelodau'r Bwrdd'. Yn eich tystiolaeth i'r pwylgor ym mis Rhagfyr, awgrymwyd ei bod yn amhriodol i aelodau'r bwrdd gael eu penodi gan Aelodau'r Cynulliad ac y gallai hynny danseilio'i annibyniaeth. Os felly, pam ydych wedi dewis dull gwahanol ar gyfer y comisiynydd safonau statudol, sydd hefyd yn annibynnol ar y Cynulliad ond sy'n cael ei benodi gan y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn?

Y Llywydd: Er imi wneud rhai diwygiadau i Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 i'w gryfhau ar ran y Comisiwn, ni roddais y cyfarwyddiadau yno, er y bydd Keith yn egluro pam ei fod yn wahanol. Y Pwylgor Safonau Ymddygiad a wnaeth hynny. Y prif wahaniaeth rhwng y ddau yw fy mod yn ystyried y comisiynydd safonau, yn enwedig y comisiynydd safonau newydd, yn swyddog cenedlaethol. Felly, mae'n briodol i'r person hwnnw, ynghyd â chategori bach arall o bobl, gan gynnwys Archwilydd Cyffredinol Cymru, Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, i gael eu hethol gan y

National Assembly for Wales, and the Public Services Ombudsman for Wales, to be elected by the National Assembly, because they are national officers who discharge a national duty. The commissioner for standards in the new Measure that we have taken through, with those amendments, is responsible for promoting the highest standards in public life in the role of being an Assembly Member. So, that is a different route.

[81] The remuneration board is taking over functions that are currently the responsibility of the Assembly Commission in law, and that is why this proposed Measure is amending the Government of Wales Act 2006 in that way. That is why the appointment by the Assembly Commission will be carried out by the chief executive, using the public appointments procedure generally used in Wales by Ministers and others.

1.50 p.m.

[82] If the Assembly were making the appointment on every occasion, you would presumably have to have a vote in Plenary to make those appointments, and that might not be suitable. However, we have looked carefully at the appointments procedure. There is a positive side to this, in my view, which is that we wanted to make it clear—and I certainly wanted to reinforce the principle—that this remuneration body, as a board, is entirely at arm's length from Assembly Members. Therefore, there is no way in which we have a direct influence on its constitution and its making. I am not suggesting that this would ever happen, but perhaps someone in the media or elsewhere outside the Assembly might look at what we do and say, 'Oh, this board is not really independent, because it is that lot who vote for it anyway in the end'. So, it is helpful to keep a break in the process by ensuring that the Assembly is not directly involved and that the Assembly Commission handles the matter at arm's length. Of course, members of the board are formally employed and formally accountable to the Assembly Commission, as I tried to say last time, in the auditing of their performance and so on. However, the actual appointment is just like

Cynulliad Cenedlaethol, oherwydd maent yn swyddogion cenedlaethol sy'n cyflawni dyletswyddau cenedlaethol. Y comisiynydd safonau yn y Mesur newydd sydd wedi'i gyflwyno gennym, gyda'r diwygiadau hynny, sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r safonau uchaf mewn bywyd cyhoeddus yn y rôl o fod yn Aelod Cynulliad. Felly, mae hwnnw'n drywydd gwahanol.

Mae'r bwrdd taliadau yn ymgymryd â swyddogaethau y mae Comisiwn y Cynulliad yn gyfrifol amdanynt ar hyn o bryd dan y gyfraith, a dyna pam mae'r Mesur arfaethedig hwn yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn y ffordd honno. Dyna pam mae'r penodiad gan Gomisiwn y Cynulliad yn cael ei wneud gan y prif weithredwr, drwy ddefnyddio'r weithdrefn penodiadau cyhoeddus a ddefnyddir fel arfer yng Nghymru gan Weinidogion ac eraill.

Pe bai'r Cynulliad yn penodi bob tro, mae'n debyg y byddech yn gorfol pleidleisio mewn Cyfarfod Llawn i wneud y penodiadau hynny, ac efallai na fyddai hynny'n addas. Fodd bynnag, yr ydym wedi edrych yn ofalus ar y weithdrefn benodi. Mae ochr gadarnhaol i hyn, yn fy marn i, sef ein bod am ei gwneud yn glir—ac yr oeddwn yn sicr am atgyfnerthu'r egwyddor—fod y corff taliadau hwn, fel bwrdd, yn cadw pellter hyd braich oddi wrth Aelodau'r Cynulliad. Felly, nid oes unrhyw ffordd i ni ddylanwadu'n uniongyrchol ar ei gyfansoddiad a'i wneuthuriad. Nid wyf yn awgrymu y byddai hyn byth yn digwydd, ond efallai y gallai rhywun yn y cyfryngau neu rywle y tu allan i'r Cynulliad edrych ar yr hyn a wnaeon a dweud, 'O, nid yw'r bwrdd hwn yn annibynnol mewn gwirionedd, oherwydd y criw yna sy'n pleidleisio ar ei gyfer yn y diwedd beth bynnag'. Felly, mae'n ddefnyddiol cael toriad yn y broses drwy sicrhau nad yw'r Cynulliad yn cyfrannu'n uniongyrchol a bod Comisiwn y Cynulliad yn ymdrin â'r mater o hyd braich. Wrth gwrs, mae aelodau'r bwrdd yn cael eu cyflogi'n ffurfiol ac yn atebol yn ffurfiol i Gomisiwn y Cynulliad, fel y ceisiais ei ddweud y tro diwethaf, wrth archwilio eu perfformiad ac

the public appointments system that we operate in other areas, and it will be run in that way. I am not really keen to reopen this, because there is a danger that the principle of being at full arm's length from Assembly Members may be muddied a bit. Do you want to add anything to that, Keith?

ati. Fodd bynnag, mae'r penodiadau eu hunain yn union fel y system benodi cyhoeddus yr ydym yn ei gweithredu mewn meysydd eraill, a bydd yn cael ei chynnal felly. Nid wyf yn awyddus mewn gwirionedd i aildraffod hyn, oherwydd mae perygl y gall yr egwyddor o gadw hyd braich o Aelodau'r Cynulliad gael ei chymylu rhywfaint. A ydych am ychwanegu rhywbeth at hynny, Keith?

[83] **Mr Bush:** There are a lot of reasons of different kinds as to why the approaches are different. The Presiding Officer has drawn your attention to the one that seems to have been at the forefront of the thinking on this decision, namely of perception and of keeping the appointments at arm's length from the body of Assembly Members, as far as possible. Members will need to remember that, although the appointment will be made by the Commission, in the sense that it will be a decision of the Commission that will formally record the appointment rather than a motion in Plenary, the Commission will have no discretion as to who it appoints. The proposed Measure makes it clear that the selection process will be set up in a fair, objective and transparent way, and then whoever that process identifies as a candidate for selection will have to be appointed by the Commission, unless that person is disqualified by law from being appointed. So, the whole thing is designed to ensure that there can be no picking or choosing—or apparent picking or choosing—of people because of their perceived sympathy or hostility, as the case may be, to Assembly Members.

[84] If we were to move to appointment by the Assembly in Plenary session, it would not have any practical effect on who would be appointed, because the selected candidate would have to be either accepted or rejected, and if they were rejected, the whole system would stop functioning. One would have to have a motion in Plenary every time a casual vacancy arose on the board, and one could not appoint a member of the board during recess. There is a whole raft of reasons for the approach that has been adopted. However, as I say, it is a matter of perception rather than there being any difference of outcome as to who would be appointed.

Mr Bush: Mae llawer o wahanol fathau o resymau pam mae'r dulliau'n wahanol. Mae'r Llywydd wedi tynnu'ch sylw at yr un sy'n ymddangos fel pe bai flaenaf ym meddyliau pobl gyda'r penderfyniad hwn, yn bennaf o ran amgyffred pobl a chadw hyd braich rhwng y penodiadau a'r corff o Aelodau'r Cynulliad, cyhyd â phosibl. Bydd angen i Aelodau gofio, er mai'r Comisiwn fydd yn gwneud y penodiad yn yr ystyr y bydd yn benderfyniad gan y Comisiwn a fydd yn cofnodi'r penodiad yn ffurfiol yn hytrach na bod cynnig mewn Cyfarfod Llawn, ni fydd gan y Comisiwn unrhyw hawl i ddewis pwy i'w benodi. Mae'r Mesur arfaethedig yn nodi'n glir y bydd y broses ddethol yn cael ei threfnu mewn ffordd deg, wrthrychol ac eglur, ac yna rhaid i'r Comisiwn benodi pwy bynnag y mae'r broses honno'n ei nodi yn ymgeisydd i'w ddethol, ac eithrio bod y person hwnnw wedi'i anghymwyso gan y gyfraith rhag cael ei benodi. Felly, mae'r holl beth wedi'i lunio i sicrhau na ellir dewis a dethol pobl—neu nad yw'n ymddangos felly—oherwydd eu cydymdeimlad neu eu gelynbiaeth ymddangosiadol, beth bynnag y bo, i Aelodau'r Cynulliad.

Pe baem yn symud i system benodi gan y Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn, ni fyddai'n cael unrhyw effaith ymarferol ar bwya a benodir, oherwydd y byddai'n rhaid i'r ymgeisydd dethol gael ei dderbyn neu ei wrthod, a phe bai'n cael ei wrthod, byddai'r holl system yn dirwyn i ben. Byddai'n rhaid cael cynnig mewn Cyfarfod Llawn bob tro y byddai swydd achlysurol yn codi ar y bwrdd, ac ni fyddai modd i neb benodi aelod o'r bwrdd yn ystod y toriad. Mae sawl rheswm pam y mabwysiadwyd y dull hwn. Fodd bynnag, fel y dywedais, mater o amgyffred ydyw yn hytrach na bod y canlyniad yn wahanol o ran pwy fyddai'n cael ei benodi.

[85] **Val Lloyd:** Interestingly, you mentioned perception, and there are perceptions other than those that you just elucidated. The committee received evidence that the process for appointing members to the board,

[86] ‘would be seen as more open and transparent...if the appointment of the Remuneration Board was made by the Assembly’,

[87] rather than by the Assembly Commission. I will not ask you how you would respond to that, because you have responded quite fully. It is a matter of perception, and there are different perceptions. The Assembly would be making a ratification rather than an appointment, would it not?

[88] **Mr Bush:** That is also true of the Commission. Since it is a matter of perception, it is not my perception that counts, if I may say so, and I defer to the Presiding Officer on that, because it is a matter of judgment over what is the most important perception to avoid. He has articulated the view that the priority is to avoid any perception that Assembly Members are deciding in their own interests who should be deciding on their remuneration.

[89] **The Presiding Officer:** I do not wish to miss the opportunity to say something about the role of the Assembly Commission, because it has been open to a lot of misunderstanding, including among Assembly Members, let alone the BBC in Wales, which has no interest in understanding the details of devolution at all, as far as I can see—a generalisation, but one that I will defend in another forum.

[90] The important thing here is Schedule 2, which is about the appointments. It stresses the point that, in making arrangements, the Chief Executive and Clerk of the Assembly should pursue public sector appointments having due regard to equality of opportunity and so on. I will quote the third part of that from the Welsh.

Val Lloyd: Yn ddiddorol, yr ydych wedi crybwyl amgyffred, ac mae rhai mathau ar wahân i'r rhai yr ydych wedi'u hesbonio. Derbyniodd y pwylgor dystiolaeth y byddai'r broses ar gyfer penodi aelodau i'r bwrdd,

i'w weld yn fwy agored a thryloyw pe bai aelodau'r Bwrdd Taliadau yn cael eu penodi gan y Cynulliad,

yn hytrach na Chomisiwn y Cynulliad. Nid wyf am ofyn i chi sut byddech yn ymateb i hynny, oherwydd yr ydych chi wedi ymateb yn eithaf llawn. Mae'n fater o amgyffred, ac mae gwahanol fathau o amgyffred. Byddai'r Cynulliad yn cadarnhau penodiad yn hytrach na phenodi, oni fyddai?

Mr Bush: Mae hynny hefyd yn wir am y Comisiwn. Gan ei fod yn fater o amgyffred, nid fy amgyffred i sy'n cyfrif, os caf ddweud, ac yr wyf yn ildio i'r Llywydd ar hynny, gan ei fod yn fater o benderfynu beth yw'r amgyffred pwysicaf i'w osgoi. Mae ef wedi esbonio'r safbwyt mai'r flaenoriaeth yw osgoi unrhyw amgyffred bod Aelodau'r Cynulliad yn penderfynu er eu lles eu hunain pwy ddylai fod yn penderfynu ar eu taliadau.

Y Llywydd: Nid wyf am golli'r cyfle i ddweud rhywbeth am swyddogaeth Comisiwn y Cynulliad, gan ei fod wedi bod yn agored i lawer o gamddealltwriaeth, gan gynnwys ymysteg Aelodau'r Cynulliad, heb sôn am y BBC yng Nghymru, sydd â dim diddordeb mewn deall manylion datganoli o gwbl, cyhyd ag y gwelaf i—cyffredinoliad yw hwnnw, ond un y byddaf yn ei amddiffyn mewn fforwm arall.

Y peth pwysig yma yw Atodlen 2, sy'n ymwneud â'r penodiadau. Mae'n pwysleisio'r pwynt y dylai'r Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, wrth wneud trefniadau, fynd i'r afael â phenodiadau sector cyhoeddus a rhoi ystyriaeth ddigonol i gyfleoedd ac ati. Yr wyf am ddyfynnu trydedd ran hynny yn y Gymraeg.

[91] ‘Rhaid i Gomisiwn y Cynulliad benodi’n Gadeirydd, neu’n aelod o’r Bwrdd, yn ôl fel y digwydd, unrhyw berson a ddetholir, yn unol â’r trefniadau hyn, i’w benodi i’r swydd honno, oni bai ei bod yn ymddangos i Gomisiwn y Cynulliad fod y person o dan sylw wedi’i anghymhwys o rag bod yn aelod o’r Bwrdd o dan adran 3.’

[92] The Assembly Commission is merely acting as a board to ratify the decision of the appointments panel. That is all that the Commission ever does in anything that it does. The Commission has statutory responsibilities. It is like the Scottish Parliamentary Corporate Body, and it is, in another sense, like the House of Commons Commission. It is a board consisting of Assembly Members, which is charged with making technical decisions about resources available to Members. It is not a committee of the Assembly, and it does not have on it people who seek to influence public policy in any way. It is a technical agency working on behalf of us all. It is important to stress that. Perhaps ‘Assembly Commission’ are not the best words, but the words ‘corporate body’, as in Scotland, are not possible, because we had one of those before, which tied us to the Government, and so that was not very helpful. We need to make it clear that the Assembly Commission is just an executive board that undertakes certain legal duties that are necessary to make a place like this function, by giving some degree of Member authority to what goes on—in other words, Members are involved in it, and it is not just administered directly by the chief executive and our very able staff. It is not a body that has a role beyond making those technical and detailed decisions. Therefore, the idea that the Commission is somehow less transparent than the rest of the Assembly is totally unfair, because all its papers and discussions are published. It does not meet in public—actually, maybe it should, but that is not for today.

[93] **Eleanor Burnham:** Notwithstanding that very erudite and academic view, in view of the negative and unfair perception that Sir Roger Jones had of us, and what he said last week, which was quite extraordinary—namely that, in his view, much of public

‘The Assembly Commission must appoint as Chair, or as a member of the Board, as the case may be, any person selected, in accordance with such arrangements, for appointment to that office unless it appears to the Assembly Commission that the person in question is disqualified from membership of the Board under section 3.’

Y cwbl y mae Comisiwn y Cynulliad yn ei wneud yw gweithredu fel bwrdd i gadarnhau penderfyniad y panel penodiadau. Dyna’r cwbl y mae’r Comisiwn yn ei wneud yn unrhyw beth a wna. Mae gan y Comisiwn gyfrifoldebau statudol. Mae fel Corff Corfforaethol Seneddol yr Alban, ac mae, ar ystyr arall, fel Comisiwn Tŷ’r Cyffredin. Mae’n fwrdd sy’n cynnwys Aelodau’r Cynulliad, sydd â’r cyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau technegol am yr adnoddau sydd ar gael i Aelodau. Nid yw’n bwyllogor o’r Cynulliad, ac nid yw’n cynnwys pobl sy’n ceisio dylanwadu ar bolisi cyhoeddus mewn unrhyw ffordd. Mae’n asiantaeth dechnegol sy’n gweithio ar ran pawb ohonom. Mae’n bwysig pwysleisio hynny. Efallai nad ‘Comisiwn y Cynulliad’ yw’r geiriau gorau, ond nid yw’r geiriau ‘corff corfforaethol’, fel yn yr Alban, yn bosibl, oherwydd yr oedd gennym un ohonynt o’r blaen, a oedd yn ein clymu wrth y Llywodraeth, ac felly nid oedd yn ddefnyddiol iawn. Mae angen i ni egluro mai bwrdd gweithredol yw Comisiwn y Cynulliad sy’n cyflawni’r dyletswyddau cyfreithiol penodol sy’n ofynnol i wneud i le fel hwn weithio, drwy roi rhywfaint o awdurdod Aelodau i’r hyn sy’n digwydd—hynny yw, mae Aelodau’n cyfrannu ato, ac nid yw’n cael ei weinyddu’n uniongyrchol gan y prif weithredwr a’n staff galluog. Nid yw’n gorff sydd â swyddogaeth y tu hwnt i’r penderfyniadau technegol a manwl hynny. Felly, mae’r syniad bod y Comisiwn rywsut yn llai tryloyw na gweddill y Cynulliad yn gwbl annheg, oherwydd mae ei holl bapurau a’i drafodaethau’n cael eu cyhoeddi. Nid yw’n cyfarfod yn gyhoeddus—ac efallai y dylai, ond nid yw hynny i’w drafod heddiw.

Eleanor Burnham: Er gwaethaf y safbwyt dysgedig ac academaidd hwnnw, o ystyried y canfyddiad negyddol ac annheg a oedd gan Syr Roger Jones ohonom ni, a’r hyn a ddywedodd yr wythnos diwethaf, a oedd yn eithaf anhygoel—yn bennaf, yn ei farn ef, fod

money is wasted in Wales—I contend that it is more important than ever that the Assembly Commission, which I know is an august body, ratifies this and that we go that one step further and make it as open and transparent as possible, particularly given that, as you have said, certain types of media do not understand enough about devolution.

[94] **The Presiding Officer:** I have already alluded to the fact that Sir Roger Jones and I have family deep in the same part of world, and the same thing applies to you, Eleanor, as you know.

2.00 p.m.

[95] I am not here to defend, agree or disagree with anything that Sir Roger has said as a witness to you. It is up to you to take whatever he said on its merits or demerits. However, I am concerned that any involvement by Assembly Members not acting entirely as a board—as an executive body delivering specific functions, that is, the Assembly Commission—in the election of a remuneration board endangers—I used the term ‘muddy the waters’ earlier, and I do not want to put it too strongly, but it could seriously affect the perception of the independence of the board. However, if you have those two checks and balances—the public appointments procedure run by the chief executive, then the executive board acting on behalf of all Assembly Members in delivering statutory duties ratifying, if you like, those appointments—because it is formally working as an agency employed to that body, is fairly clear. You have two clear arm’s-length established principles and processes. If you were to have an election in the Assembly, I am not suggesting that people would want to canvass or actively oppose a Member and seek disqualification, but you open up that door. It is a bit of a Pandora’s box, while the rest of it is fairly clear. As Keith so clearly said, there is no additional advantage to the Assembly doing it as compared with five Assembly Members gathered together in room 4B doing it.

llawer o arian cyhoeddus yn cael ei wastraffu yng Nghymru—yr wyf yn dadlau ei bod yn bwysicach nag erioed i Gomisiwn y Cynulliad, y gwn sy'n gorff urddasol, gadarnhau hyn a'n bod yn mynd gam ymhellach ac yn ei wneud mor agored a thryloyw â phosibl, yn enwedig o ystyried, fel y dywedasoch, nad yw mathau penodol o gyfryngau'n deall digon am ddatganoli.

Y Llywydd: Yr wyf eisoes wedi cyfeirio at yffaith bod gennylf i a Syr Roger Jones deulu yn yr un mannau o'r byd, ac mae'r un peth yn wir amdanoch chi, Eleanor, fel y gwyddoch.

Nid wyf yma i amddiffyn, cytuno neu anghytuno ag unrhyw beth y mae Syr Roger wedi'i ddweud i chi fel dystiolaeth. Chi sydd i ystyried y da a'r drwg yn yr hyn a ddywedodd. Fodd bynnag, yr wyf yn bryderus bod unrhyw gyfranogiad gan Aelodau'r Cynulliad nad ydynt yn gweithredu'n gyfan gwbl fel bwrdd—fel corff gweithredol yn cyflawni swyddogaethau penodol, hynny yw, Comisiwn y Cynulliad—wrth ethol bwrdd taliadau yn peryglu—. Defnyddiai y term ‘cymylu'r dyfroedd’ yn gynharach, ac nid wyf am bwysleisio hyn ormod, ond gallai effeithio'n ddifrifol ar sut mae pobl yn amgyffred annibyniaeth y bwrdd. Fodd bynnag, os oes gennych chi y ddwy ffordd honno o gadw cydbwysedd—y weithdrefn penodiadau cyhoeddus a gynhelir gan y prif weithredwr, a'r bwrdd gweithredol yn gweithredu ar ran Aelodau'r Cynulliad wrth gyflawni ei ddyletswyddau yn cadarnhau, os mynnwch, y penodiadau hynny—gan ei fod yn gweithio'n ffurfiol fel asiantaeth a ddefnyddir gan y corff hwnnw, mae hynny'n eithaf clir. Mae gennych ddwy egwyddor a phroses hyd braich clir wedi'u sefydlu. Pe baech yn cael etholiad yn y Cynulliad, nid wyf yn awgrymu y byddai pobl am ganfasio neu wrthwnebu Aelod yn frwd a cheisio'i anghymwysyo, ond yr ydych yn agor y drws hwnnw. Mae fel blwch Pandora i raddau, tra bod ei weddill yn eithaf clir. Fel y dywedodd Keith yn gynharach, nid oes unrhyw fantais ychwanegol i'r Cynulliad wneud hynny o gymharu â phum Aelod Cynulliad yn dod at ei gilydd yn ystafell 4B yn gwneud hynny.

[96] **Rosemary Butler:** Thank you. We still have a number of questions to get through, so we will keep any supplementary questions until the end.

[97] **Val Lloyd:** Other written evidence that we have received in relation to section 4 and Schedule 2 suggested that the proposed Measure should include provision setting out ‘qualifying criteria’ for potential members of the board, which draw on the Nolan principles. What consideration, if any, did you give to including qualifying criteria in the proposed Measure?

[98] **The Presiding Officer:** We have, in Schedule 2, the reference to equal opportunities. As these will be pursued by normal public appointments criteria, we have not set any qualifying criteria in Schedule 2 or in the proposed Measure. However, I can give you the assurance that there will be very detailed job specifications, as for everything that we do, and that there will be an involvement of the independent advisers who advise us as a Commission, and who are also open to advise the chief executive in doing that work. We would prefer not to put legal qualifying criteria there, like the dreaded one that they should be Welsh speaking or not Welsh speaking, or some gender balance criteria. Those have been used in the past but, I think, are no longer used for public appointments in Wales. Now we look for an appointments panel to pursue all the equality strands in the appointments and to apply them rigorously so that they come up with a broad spread and a representative panel, rather than having these legal qualifying criteria for candidates.

[99] **Eleanor Burnham:** Mae fy nghwestiwn yn ymwneud â phenodi aelodau'r bwrdd ac adran 4. Mae'r Mesur arfaethedig yn darparu ar gyfer penodi cadeirydd ac aelodau'r bwrdd am gyfnod penodedig o bum mlynedd ac mae'n caniatáu iddynt gael eu hailbenodi. Pa ystyriaeth a roddwyd gennych, os o gwbl, i ddarparu ar gyfer eu penodi am un cyfnod yn unig, a hwnnw'n gyfnod hwy?

Rosemary Butler: Diolch, mae gennym lawer o gwestiynau i'w trafod o hyd, felly yr ydym am adael unrhyw gwestiynau atodol tan y diwedd.

Val Lloyd: Awgrymodd tystiolaeth ysgrifenedig arall a dderbyniwyd gennym mewn perthynas ag adran 4 ac Atodlen 2 y dylai'r Mesur arfaethedig gynnwys darpariaeth yn nodi 'meini prawf cymhwysos' ar gyfer darpar aelodau'r bwrdd, sy'n seiliedig ar egwyddorion Nolan. Pa ystyriaeth, os o gwbl, yr ydych wedi'i rhoi i gynnwys meini prawf cymhwysos yn y Mesur arfaethedig?

Y Llywydd: Mae gennym, yn Atodlen 2, y cyfeiriad at gyfle cyfartal. Gan y bydd y rhain yn cael eu dilyn gan feini prawf penodiadau cyhoeddus cyffredin, nid ydym wedi pennu unrhyw feini prawf cymhwysos yn Atodlen 2 nac yn y Mesur arfaethedig. Fodd bynnag, gallaf eich sicrhau y bydd manylebau swydd manwl iawn, fel gyda phopeth a wnawn, ac y bydd cynghorwyr annibynnol sy'n ein cynghori fel Comisiwn ac sydd hefyd yn agored i gynggori'r prif weithredwr wrth wneud y gwaith hwnnw, yn cyfrannu. Byddai'n well gennym beidio â defnyddio meini prawf cymhwysos cyfreithiol, fel yr un sy'n codi braw, sef a ddylent siarad Cymraeg neu beidio, neu rai meini prawf cydbwysedd rhwng y rhywiau. Mae'r rheini wedi'u defnyddio yn y gorffennol ond, credaf, nad iddynt yn cael eu defnyddio bellach ar gyfer penodiadau cyhoeddus yng Nghymru. Yn awr yr ydym yn chwilio am banel penodi i fynd i'r afael â'r holl elfennau cydraddoldeb yn y penodiadau a'u cymhwysos'n drwyndl er mwyn iddynt sicrhau dosbarthiad eang a phanel cynrychiadol, yn hytrach na chael y meini prawf cymhwysos cyfreithiol hyn ar gyfer ymgeiswyr.

Eleanor Burnham: My question relates to the appointment of board members and section 4. The proposed Measure provides for the Chair and members of the board to be appointed for a fixed term of five years and permits reappointment. What consideration, if any, did you give to providing for a longer, single-term appointment?

[100] **Y Llywydd:** Nid wyf yn credu ein bod wedi meddwl am hyn yn ddigon ofalus, i fod yn onest. Mae'n bwysig i ni gael pobl sy'n gallu gweithredu'n brofiadol. Yr oedd y pum mlynedd yn deillio o'r ffaith y byddai hynny'n mynd ar draws un Cynulliad i'r llall, gan y byddai'r parhâd hwnnw'n beth defnyddiol. Eto, os caf daflu'r bêl i'ch cyfeiriad chi, Gadeirydd—os dyna'r ymadrodd priodol i'w ddefnyddio yn y pwylgor hwn—buaswn yn croesawu unrhyw sylwadau sydd gennych ar hynny. Os ydych yn credu mewn egwyddor y byddai'n dda o beth i benodi am ddua dymor Cynulliad a mwy, efallai y gallem wneud hynny.

[101] **Eleanor Burnham:** Cawsom dystiolaeth gan Mr Winetrobe—mae'n debyg eich bod wedi ei gweld—fod cael gwared ar y posiblwydd o ailbenodi yn well ffordd o warantu annibyniaeth y sawl a gaiff ei benodi i swydd gyhoeddus. Beth yw eich barn chi am hyn?

[102] **Y Llywydd:** Dim ond profiad o un swydd gyhoeddus tymor byr iawn sydd gennylf ac un arall a barodd chwe blynedd, gydag un ailbenodiad yn ystod y cyfnod hwnnw. Nid wyf yn meddwl mai bygythiad o ran y posiblwydd o ailbenodiad yw'r peth pwysicaf i'w ystyried pan fydd rhywun yn chwilio am bobl i gyflawni gwaith cyhoeddus, nac yn sicr yr hyn sy'n cymhell pobl i wneud y gwaith. Byddwn yn gobeithio mai'r hyn fyddai'n cymhell pobl i wneud gwaith cyhoeddus taladwy yw eu bod yn teimlo eu bod yn gallu cyfrannu o'u profiad i wella ansawdd bywyd cyhoeddus yng Nghymru. Nid yw'r cwestiwn o ailbenodi mor bwysig â hyd tymor y penodiad. Yr wyf yn gwybod eich bod wedi bod yn ystyried ailbenodi aelodau ar adegau gwahanol—ac efallai y bydd yn codi yn nes ymlaen—

[103] **Eleanor Burnham:** Dyna fy nghwestiwn olaf i.

[104] **Y Llywydd:** Arhoswn i glywed hwnnw felly.

[105] **Eleanor Burnham:** Pa ystyriaeth a roddwyd gennych, os o gwbl, i ddarparu ar gyfer penodi aelodau'r bwrdd ar adegau gwahanol i'w gilydd neu ar sail gyfnewidiol,

The Presiding Officer: I do not think that we have thought about this carefully enough, to be honest. It is important that we have people who can operate from experience. The five years came from the fact that that would go across from one Assembly to the other, as that continuity would be useful. Again, if I may throw the ball into your court, Chair—if that is the appropriate expression to use in this committee—I would welcome any comments that you have on that. If you believe that in principle that it would be a good idea to appoint them for two Assembly terms or longer, we could perhaps do that.

Eleanor Burnham: We heard evidence from Mr Winetrobe—I am sure that you will have seen it—that removing the prospect of reappointment was a better guarantee of appointees' independence in public office. What is your view on that?

The Presiding Officer: I have experience of only one very short-term public appointment and another that lasted for six years, with one reappointment during that time. I do not think that a threat in terms of the possibility of reappointment is the most important consideration when one is looking for people to take up a public position, or that that is what motivates people to do the work. I would hope that people who undertake a paid public appointment would be motivated by the feeling that they could contribute of their experience in order to improve the quality of public life in Wales. The question of reappointment is not as important as the length of the appointment. I know that you have been considering reappointing members at different times—and that may come up later on—

Eleanor Burnham: That is my last question.

The Presiding Officer: We will wait to hear that, then.

Eleanor Burnham: What consideration, if any, did you give to providing for rolling or rotating board membership, as you have just mentioned?

fel yr ydych newydd ei grybwyll?

[106] **Y Llywydd:** Yn amlwg, byddwn yn disgwyl newid yn yr aelodaeth dros gyfnod ac efallai byddai rhyw fath o rowlio yn digwydd.

[107] **Eleanor Burnham:** Ond nid yn—

[108] **Y Llywydd:** Na. Mae'n dibynnu. Yr wyf wedi dweud eisoes y prynhawn yma y gallech gychwyn drwy benodi tri ac yna ychwanegu atynt, yn amlwg, ond carwn gael eich barn chi ar hynny. Nid wyf yn siŵr sut y byddai rhywun yn sefydlu system o rowlio penodiadau o'r cychwyn. Byddai hynny bach yn anodd.

[109] **Eleanor Burnham:** Byddai, os na fyddch yn penodi tri yn gyntaf, fel yr ydych newydd ei awgrymu.

[110] **Rosemary Butler:** We can consider that and come up with some recommendations.

[111] **The Presiding Officer:** I think that it would be very helpful if you did that.

[112] **Nick Ramsay:** On the general exercise of functions, section 12, it has been suggested in evidence that the requirement on the board to 'have regard to' the panel's recommendations when making its first determination and to provide a statement to the Assembly Commission if it was to depart from the recommendations could

'raise issues about its independence and the value of its work'.

[113] How do you respond to that?

[114] **The Presiding Officer:** When I first looked at this, I thought that it was a very elegant way of giving the independent remuneration board a clear agenda and steer, while also ensuring that it was independent. It would be contrary to the independent panel's recommendations that there should be an independent board if all it did was implement the work of the panel. In other words, this compromise, I assume—the elegant author sits to my left, so he can speak for himself—did give us both/and as it were, so that the independent remuneration board comes out

The Presiding Officer: Clearly, I would expect changes in the membership over a period of time and perhaps there would be some sort of rolling.

Eleanor Burnham: But not in—

The Presiding Officer: No. It depends. I have already said this afternoon that you could begin by appointing three and then adding to them, but I would clearly welcome your opinion on that. I am not sure how one would establish a rolling system of appointments at the outset. That would be a little tricky.

Eleanor Burnham: Yes, it would be, unless you were to appoint three first, as you have just suggested.

Rosemary Butler: Gallwn ystyried hynny a chynnig rhai argymhellion.

Y Llywydd: Credaf y byddai'n ddefnyddiol iawn pe baech yn gwneud hynny.

Nick Ramsay: O ran gweithredu swyddogaethau'n gyffredinol, adran 12, awgrymwyd mewn tystiolaeth y gallai'r gofyniad ar y bwrdd i 'ystyried' argymhellion y panel wrth wneud ei benderfyniad cyntaf a darparu datganiad i Gomisiwn y Cynulliad pe na bai'n dilyn yr argymhellion

'raise issues about its independence and the value of its work'.

Sut yr ydych yn ymateb i hynny?

Y Llywydd: Pan edrychais ar hyn am y tro cyntaf, credais ei bod yn ffordd gywrain iawn o roi agenda a chyfeiriad clir i'r bwrdd taliadau annibynnol, gan sicrhau hefyd ei fod yn annibynnol. Byddai'n groes i argymhellion y panel annibynnol y dylid cael bwrdd annibynnol os mai'r cwbl y byddai'n ei wneud fyddai gweithredu gwaith y panel. Mewn geiriau eraill, rhoddodd y cyfaddawd hwn, rhagdybiaf—mae'r awdur cywrain yn eistedd i'r chwith i mi, felly caiff siarad dros ei hun—i ni'n dau/ac fel pe bai, fel bod y bwrdd taliadau annibynnol yn deillio o waith

of the work of the independent panel, but it is not just implementing it. Section 12 gives the opportunity for the board to exercise its functions in an independent way, making its own judgments, while emphasising the importance of the work of the panel. If you want to have a go at unravelling the elegance of this compromise, as it were, please do so because it would give us a second way of looking at it.

2.10 p.m.

[115] However, I think that the principle is that the independent review panel sought to create an independent remuneration board. We have sought to give effect to that, valuing what the independent panel recommended. So, there is a baseline, which is the work of the independent panel. However, it is able to disagree and to make other judgments, but where the judgments are made, they have to be written down as outlined in section 12(2) of the proposed Measure.

[116] '[R]haid i'r Bwrdd ddatgan mewn ysgrifen ei resymau gan... gyfleo'r datganiad i Gomisiwn y Cynulliad'.

[117] Mae hwnnw wedyn, wrth gwrs, yn ddogfen gyhoeddus.

[118] Keith, gan fy mod i wedi cymryd dy enw di'n ofer, efallai yr hoffet amddiffyn dy hun.

[119] **Mr Bush:** I merely draft the legislation. [Laughter.] That is my function. I only say that for this reason, which is that I can remember raising the following question when deciding how we would word the proposed Measure. Does the Commission want the recommendations of the panel or does it want an independent board that makes its own decisions? The answer that I got was, 'We want both'.

[120] **The Presiding Officer:** So, it really is my fault. [Laughter.]

[121] **Mr Bush:** So, how do we achieve both? I accept the compliment about the elegance of the solution, but it is a practical means of dovetailing the work of the panel

y panel annibynnol, ond nid dim ond ei weithredu a wna. Mae adran 12 yn rhoi'r cyfle i'r bwrdd arfer ei swyddogaethau mewn ffordd annibynnol, gan wneud ei benderfyniadau ei hun, gan bwysleisio pwysigrwydd gwaith y panel. Os ydych am roi cynnig ar ddatrys cywreinrwydd y cyfaddawd hwn, fel bai, gwnewch hynny ar bob cyfrif gan y byddai'n rhoi ail safbwyt i ni ei ystyried.

Fodd bynnag, credaf mai'r egwyddor yw bod y panel adolygu annibynnol wedi ceisio creu bwrdd taliadau annibynnol. Yr ydym wedi ceisio rhoi hynny ar waith, gan werthfawrogi'r hyn yr argymhellodd y panel annibynnol. Felly, mae man cychwyn, sef gwaith y panel annibynnol. Fodd bynnag, mae'n gallu anghytuno a gwneud penderfyniadau eraill, ond pan wneir y penderfyniadau, yna rhaid eu nodi'n ysgrifenedig fel yr amlinellir yn adran 12(2) o'r Mesur arfaethedig.

'[T]he Board must state in writing its reasons...and communicate that statement to the Assembly Commission'.

That then is a public document, of course.

Keith, as I have taken your name in vain, perhaps you would like to defend yourself.

Mr Bush: Y cwbl yr wyf i yn ei wneud yw drafftio'r ddeddfwriaeth. [Chwerthin.] Dyna fy swyddogaeth i. Yr wyf ond yn dweud hyn am un rheswm, sef fy mod yn cofio gofyn y cwestiwn canlynol wrth benderfynu sut byddem yn geirio'r Mesur arfaethedig. A yw'r Comisiwn eisiau argymhellion y panel neu a yw am gael bwrdd annibynnol sy'n gwneud ei benderfyniadau ei hun? Yr ateb a gefais oedd, 'Yr ydym am gael y ddau'.

Y Llywydd: Felly, fy mai i yw hyn mewn gwirionedd. [Chwerthin.]

Mr Bush: Felly, sut gallwn gyflawni'r ddau? Yr wyf yn derbyn y ganmoliaeth am gywreinrwydd yr ateb, ond mae'n ffordd ymarferol o asio gwaith y panel gyda gwaith

with the work of the board, making it clear that the board is free to depart from the panel's recommendations provided that it has a good enough reason for doing so, which it has to state and, of course, subject to the fact that that applies only the first time that the board considers something. As one goes forward, the board will be freer, as it were, to depart from the panel's recommendations. In addition to that, developing circumstances will mean that it will inevitably break new ground and take its own decisions. So, in a sense, this is a compromise between those two requirements, but I hope that we have put the balance in the right place.

[122] **Rosemary Butler:** I think that question 20 has been answered now, Nick, so perhaps you could move on to the next one.

[123] **Nick Ramsay:** Moving on to the accountability of the board, much of this has also been covered, but, for clarity's sake, I will ask the question. In evidence to us on 10 December, you explained that the board would not be accountable to the Assembly in respect of the decisions that it takes, but would be 'accountable in audit terms'. Could you expand on that and what it means in practice?

[124] **The Presiding Officer:** When I said 'in audit terms', I should have said 'in governance terms', but I think that audit covers part of what I was trying to say, namely that, as the board will not have independent resource, it will not have independent accounts in that sense. However, it will, of course, be accountable to the Finance Committee of the Assembly. The board will have a budget line in the Assembly budget and that is what I was trying to say when I talked about its being accountable in audit terms. So, when you want to have a go at answering whether this is providing value for money, there is the budget line. The question also arises—and I think that we discussed this a bit last time, as the resource for the work of the board is provided by the Assembly Commission—of how often and where it will meet. If the board were to meet regularly at—and let us pick a hotel at random—Llangoed Hall, for example, 10 times a year—

y bwrdd, gan ei gwneud yn glir bod gan y bwrdd ryddid i wyro oddi wrth argymhellion y panel gan gymryd bod ganddo reswm digonol i wneud hynny, y mae'n rhaid iddo ei ddatgan ac, wrth gwrs, yn amodol ar y ffaith bod hynny ond yn gymwys y tro cyntaf y mae'r bwrdd yn ystyried rhywbeth. Wrth symud ymlaen, bydd y bwrdd yn cael mwy o ryddid, fel pe bai, i wyro oddi wrth argymhellion y panel. Hefyd, bydd amgylchiadau newydd yn golygu ei bod yn anochel y bydd yn torri tir newydd ac yn gwneud ei benderfyniadau ei hun. Felly, i ryw raddau, mae hynny'n gyfaddawd rhwng y ddau ofyniad hynny, ond gobeithio ein bod wedi rhoi'r cydbwysedd yn y lle iawn.

Rosemary Butler: Credaf ein bod wedi ateb cwestiwn 20 yn awr, Nick, felly efallai y gallech symud ymlaen at yr un nesaf.

Nick Ramsay: Gan symud ymlaen at atebolrwydd y bwrdd, mae llawer o hyn hefyd wedi'i drafod eisoes, ond er mwyn bod yn glir yr wyf am ofyn y cwestiwn. Mewn dystiolaeth i ni ar 10 Rhagfyr, bu i chi egluro na fyddai'r bwrdd yn atebol i'r Cynulliad mewn perthynas â'r penderfyniadau a wna, ond y byddai'n 'atebol o ran archwilio'. A allwch ymhelaethu ar hynny a'i ystyr yn ymarferol?

Y Llywydd: Pan ddywedais 'o ran archwilio', dylwn fod wedi dweud 'o ran llywodraethu', ond credaf fod archwilio yn cwmpasu rhan o'r hyn yr oeddwn yn ceisio ei ddweud, sef gan na fydd gan y bwrdd adnodd annibynnol, ni fydd ganddo gyfrifon annibynnol yn hynny o beth. Fodd bynnag, bydd, yn amlwg, yn atebol i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad. Bydd gan y bwrdd linell wariant yng nghyllideb y Cynulliad a dyna'r oeddwn yn ceisio ei ddweud pan ddywedais ei fod yn atebol o ran archwilio. Felly, pan fyddwch am roi cynnig ar ateb a yw hyn yn rhoi gwerth am arian, mae llinell wariant. Mae'r cwestiwn hefyd yn codi—a chredaf ein bod wedi trafod hyn rywfaint y tro diwethaf, gan fod yr adnoddau ar gyfer gwaith y bwrdd yn cael eu darparu gan Gomisiwn y Cynulliad—o ba mor aml ac ymhle y bydd yn cyfarfod. Pe bai'r bwrdd yn cyfarfod yn rheolaidd yn—gadewch i ni ddewis gwesty ar hap—Neuadd Llangoed, er enghraifft, 10 gwaith y flwyddyn—

[125] **Ann Jones:** Or 10 times a week.

[126] **The Presiding Officer:** There is no danger of that. So, if it were to spend public money inappropriately, obviously questions would be asked. That is what I meant to say.

[127] **Nick Ramsay:** Did you say that it would have its own accounts?

[128] **The Presiding Officer:** As I understand it, the position is that it would not be preparing independent accounts because it does not have independent resources. However, its budget line and its activity would be open to scrutiny by the Finance Committee. Dianne, do you want to take that budget argument a little further?

[129] **Ms Bevan:** That position is correct. It would be possible to identify the board's expenditure separately, in the same way as the Commission appears before the Finance Committee to account for its expenditure over the course of its bid and the spending year. If the Finance Committee so wished, the chair of the board could even come forward to talk about its arrangements in that setting. There would be ways of ensuring that there is direct scrutiny of the board's activities in that way.

[130] **The Presiding Officer:** We also envisage that the board would produce an annual report on its website in the normal way, so that activity of that kind would always be open to scrutiny.

[131] **Eleanor Burnham:** May I ask a question?

[132] **Rosemary Butler:** I think that Ann wanted to come in on this issue. I am sorry, Ann, but I could not hear what you were saying.

[133] **Ann Jones:** I was going to ask about the board's governance, but I think that you have already begun explaining that the governance of the board would be handled via the Finance Committee. That is where Members would have an opportunity to raise

Ann Jones: Neu 10 gwaith yr wythnos.

Y Llywydd: Nid oes perygl o hynny. Felly, pe bai'n gwario arian cyhoeddus yn amhriodol, mae'n amlwg y byddai cwestiynau'n cael eu gofyn. Dyna'r oeddwn yn bwriadu ei ddweud.

Nick Ramsay: A wnaethoch chi ddweud y byddai ganddo ei gyfrifon ei hun?

Y Llywydd: O'r hyn a ddeallaf, y seyllfa yw na fyddai'n paratoi cyfrifon annibynnol gan nad oes ganddo adnoddau annibynnol. Fodd bynnag, byddai ei linell wariant a'i weithgarwch yn agored i graffu gan y Pwyllgor Cyllid. Dianne, a ydych am fynd â'r ddadl am y gyllideb ymlaen ychydig ymhellach?

Ms Bevan: Mae'r seyllfa honno'n gywir. Byddai'n bosibl nodi gwariant y bwrdd ar wahân, yn yr un ffordd ag y mae'r Comisiwn yn ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyllid i roi cyfrif am ei wariant yn ystod ei gynnig a'r flwyddyn wariant. Pe bai'r Pwyllgor Cyllid yn dymuno, gallai cadeirydd y bwrdd hyd yn oed ddod ymlaen i siarad am ei drefniadau yn y seyllfa honno. Byddai ffyrdd o sicrhau bod gweithgareddau'r bwrdd yn cael eu craffu'n uniongyrchol yn y ffordd honno.

Y Llywydd: Yr ydym hefyd yn rhagweld y byddai'r bwrdd yn llunio adroddiad blynnyddol ar ei wefan yn y ffordd arferol, er mwyn sicrhau y byddai gweithgarwch o'r math hwnnw yn agored i gael ei graffu bob amser.

Eleanor Burnham: A gaf fi ofyn cwestiwn?

Rosemary Butler: Credaf fod Ann am gyfrannu yma. Mae'n ddrwg gennyf, Ann, ond nid oeddwn yn gallu clywed yr hyn yr oeddech yn ei ddweud.

Ann Jones: Yr oeddwn am ofyn am lywodraethu'r bwrdd, ond credaf eich bod eisoes wedi dechrau egluro y byddai llywodraethu'r bwrdd yn cael ei reoli trwy'r Pwyllgor Cyllid. Dyna lle y byddai Aelodau yn cael cyfle i ofyn cwestiynau. Felly, yr wyl

questions. Therefore, I ask—

[134] **Rosemary Butler:** I am sorry, but Nick and Eleanor also want to respond to this issue.

[135] **Nick Ramsay:** This issue ties in to a question that I was going to ask on the role of the Auditor General for Wales. Am I correct in assuming that the board would not be subject to an external audit of its own?

[136] **Ms Bevan:** Not on its own. The Assembly Commission's accounts are subject to external audit by the Auditor General for Wales, and it would form a part of that. The expenditure would be readily identifiable from those accounts and could, therefore, be scrutinised.

[137] **The Presiding Officer:** May I make you an offer that you cannot refuse? I have found this committee's scrutiny to be a very exciting experience, given the way in which it is making us think about what exactly we should be doing. Nothing like this, or of this quality, ever happens at Westminster.

[138] **Rosemary Butler:** We have a long way to go yet, so you may get more of that excitement. I would appreciate it if you could stick to the point.

[139] **The Presiding Officer:** This process has been so good that I think that it would be very helpful if you were to help us to look at the arrangements for audit and governance. We discussed this before we came in to this meeting. We are not absolutely convinced that we have got this right.

[140] **Rosemary Butler:** We have a supplementary question from Eleanor. Please make it brief.

[141] **Eleanor Burnham:** I am delighted to be able to ask this question. I do hope that I am allowed to do so. A few weeks ago, I tried to ask a question in one of the other committees on the subject of audit and governance, but I was prevented from doing

yn gofyn—

Rosemary Butler: Mae'n ddrwg gennyf, ond mae Nick ac Eleanor hefyd am ymateb i'r pwynt hwn.

Nick Ramsay: Mae'r mater hwn yn cyd-fynd â chwestiwn yr oeddwn am ei ofyn am swyddogaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru. A wyf yn iawn i ragdybio na fyddai'r bwrdd ohono'i hun yn destun archwiliad allanol?

Ms Bevan: Nid ar ei ben ei hun. Mae cyfrifon Comisiwn y Cynulliad yn destun archwiliad allanol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, a byddai'n ffurio rhan o hwnnw. Byddai'r gwariant hwnnw i'w weld yn hawdd o'r cyfrifon hynny ac, felly, gellid craffu arno.

Y Llywydd: A gaf fi gynnig rhywbeth i chi nad oes modd ei wrthod? Yn fy mhrofiad i, mae gwaith craffu'r pwylgor hwn yn brofiad cyffrous iawn, o ran y ffordd y mae'n gwneud i ni feddwl am yr hyn yn union y dylem ei wneud. Nid oes unrhyw beth fel hyn, nac o'r ansawdd hon, byth yn digwydd yn San Steffan.

Rosemary Butler: Mae gennym lawer o waith i'w wneud o hyd, felly efallai y byddwch chi'n profi mwy o'r cyffro hwnnw. Byddwn yn gwerthfawrogi pe baech yn cadw at y pwynt.

Y Llywydd: Mae'r broses hon wedi bod cystal fel y credaf y byddai'n ddefnyddiol iawn pe baech yn gallu ein cynorthwyo i edrych ar y trefniadau ar gyfer archwilio a llywodraethu. Yr ydym wedi trafod hyn cyn i ni ddod i'r cyfarfod hwn. Nid ydym wedi'n hargyhoeddi'n llwyr ein bod wedi cael hyn yn iawn.

Rosemary Butler: Mae gennym gwestiwn ychwanegol gan Eleanor. A fyddch cystal â'i gadw'n gryno?

Eleanor Burnham: Yr wyf yn falch iawn o allu gofyn y cwestiwn hwn. Gobeithio y caf wneud hynny. Rai wythnosau yn ôl, ceisiais ofyn cwestiwn yn un o'r pwylgorau eraill am y mater o archwilio a llywodraethu, ond fe'm hataliwyd rhag gwneud hynny gan y

so by the wonderful Chair. It was a very direct question on a specific spending issue in the commissioner's annual report. I was not allowed to ask it because it referred to spending by a former member of staff—whom I did not name—as recorded in the annual report.

[142] As a member of the opposition, I was trying to ask a very pertinent question on auditing and financial governance. Are questions like this going to be allowed now that you have made that interesting comment about how exciting this process has been?

[143] **Rosemary Butler:** Could we have a short answer from you on that, Presiding Officer?

[144] **Eleanor Burnham:** It is a very important point.

[145] **Rosemary Butler:** Thank you, Eleanor. The question has been asked.

[146] **The Presiding Officer:** I am sorry, but I do not understand the question. Perhaps we should discuss it outside this meeting.

[147] **Rosemary Butler:** That might be helpful. We now turn to Ann Jones.

[148] **Ann Jones:** My question has been answered. It referred to Assembly Members being given an opportunity to question the governance of the body.

[149] **The Presiding Officer:** In that context, it is not only the Finance Committee that would have the authority to raise questions on these matters, but also the Public Accounts Committee.

[150] **Ann Jones:** You have asked us to look at this issue if we think that any mechanisms need to be put in place to make that happen.

[151] **Rosemary Butler:** I see that you have asked both your questions, so we will move on to Val Lloyd's question.

[152] **Val Lloyd:** I want to ask about an annual report. The National Assembly for Wales Commissioner for Standards is

Cadeirydd hyfryd. Yr oedd yn gwestiwn unioingyrchol iawn ar fater gwariant penodol yn adroddiad blynnyddol y comisiynydd. Nid oeddwn yn cael gofyn y cwestiwn gan ei fod yn cyfeirio at wariant gan gyn-aelod o staff—na enwais—a gafodd ei gofnodi yn yr adroddiad blynnyddol.

A minnau'n aelod o'r wrthblaid, yr oeddwn yn ceisio gofyn cwestiwn perthnasol am archwilio a llywodraethu ariannol. A fydd cwestiynau fel hyn yn cael eu caniatáu yn awr a chithau wedi gwneud y sylw diddorol am ba mor gyffrous y bu'r broses hon?

Rosemary Butler: A gawn ni ateb cryno gennych chi ar hynny, Lywydd?

Eleanor Burnham: Mae'n bwynt pwysig iawn.

Rosemary Butler: Diolch, Eleanor. Mae'r cwestiwn wedi'i ofyn.

Y Llywydd: Mae'n ddrwg gennyf ond nid wyf yn deall y cwestiwn. Efallai y dylem ei draffod y tu allan i'r cyfarfod hwn.

Rosemary Butler: Gallai hynny fod yn ddefnyddiol. Trown yn awr at Ann Jones.

Ann Jones: Mae fy nghwestiwn wedi'i ateb. Yr oedd yn cyfeirio at roi'r cyfre i Aelodau'r Cynulliad gwestiynu'r ffordd o lywodraethu'r corff.

Y Llywydd: Yn y cyd-destun hwnnw, nid y Pwyllgor Cyllid yn unig fyddai'n cael yr awdurdod i ofyn cwestiynau am y materion hyn, ond y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus hefyd.

Ann Jones: Yr ydych wedi gofyn i ni edrych ar y mater hwn pe baem yn meddwl bod angen rhoi unrhyw fecanweithiau ar waith i wneud i hynny ddigwydd.

Rosemary Butler: Gwelaf eich bod wedi gofyn eich dau gwestiwn, felly symudwn ymlaen at gwestiwn Val Lloyd.

Val Lloyd: Yr wyf yn gofyn am yr adroddiad blynnyddol. Mae'n ofynnol i Gomisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

required to provide an annual report to the Assembly, and that report will focus specifically on the performance of the functions of the commissioner throughout the year. Why was a similar provision not been included in this proposed Measure, given that the commissioner is also independent?

2.20 p.m.

[153] **The Presiding Officer:** We will certainly look at that. Could you put that in your recommendations as well? We will take full account of it. This is the form of words: we will take full account of it. That means that we are very sorry that we did not think of it before you did. [Laughter.]

[154] **Val Lloyd:** I have a follow-up question to that, along similar lines. Section 5 of the National Assembly for Wales Commissioner for Standards Measure 2009 makes provision for the 'independence of the Commissioner'. Why have you chosen not to include a similar provision in this proposed Measure, which would make it explicit that the board is independent from the Assembly?

[155] **The Presiding Officer:** The independence of the commissioner applies to the way in which he carries out his office and so on. We thought that the independence of the independent remuneration panel was clear in the way we had set out its terms of reference and in the general application of its functions and so on. However, while not wanting to confuse the roles of the independent commissioner for standards with what the remuneration board would do for the Assembly, as the functions are different, the Measure for the independent commissioner substitutes a statutory commissioner for what is presently a non-statutory adviser to the Assembly. So, as I said earlier, these are different creatures. There is a particular reason for declaring the independence of the commissioner relating to that, in that he is no longer an adviser but a national officer and an independent commissioner, and that arose out of Professor Diana Woodhouse's report. Although it has taken some time to come through, it is nonetheless why we are now doing it.

ddarparu adroddiad blynnyddol i'r Cynulliad, a bydd yr adroddiad hwnnw'n canolbwytio'n benodol ar gyflawni swyddogaethau'r comisiynydd gydol y flwyddyn. Pam na chafodd darpariaeth debyg ei chynnwys yn y Mesur arfaethedig hwn, o ystyried fod y comisiynydd hefyd yn annibynnol?

Y Llywydd: Byddwn yn sicr yn edrych ar hynny. A allwch chi gynnwys hynny yn eich argymhellion hefyd? Byddwn yn ei ystyried yn llawn. Dyma drefn y geiriau: byddwn yn ei ystyried yn llawn. Mae hynny'n golygu ei bod yn ddrwg iawn gennym na wnaethom feddwl amdano cyn i chi wneud. [Chwerthin.]

Val Lloyd: Mae gennyf gwestiwn sy'n dilyn hynny ar yr un math o drywydd. Mae adran 5 Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 yn gwneud darpariaeth ar gyfer 'annibyniaeth y Comisiynydd'. Pam ydych wedi dewis peidio â chynnwys darpariaeth debyg yn y Mesur arfaethedig hwn, a fyddai'n ei gwneud yn glir bod y bwrdd yn annibynnol ar y Cynulliad?

Y Llywydd: Mae annibyniaeth y comisiynydd yn ymwneud â'r ffordd y mae'n cyflawni ei swydd ac ati. Yr oeddem yn credu bod annibyniaeth y panel taliadau annibynnol yn glir yn y ffordd yr oeddem wedi nodi ei gylch gorchwyl ac yn y ffordd yr oedd yn gweithredu ei swyddogaethau'n gyffredinol ac ati. Fodd bynnag, heb fod am ddrys u swyddogaethau'r comisiynydd annibynnol gyda'r hyn y byddai'r bwrdd taliadau yn ei wneud i'r Cynulliad, gan fod y swyddogaethau'n wahanol, mae'r Mesur ar gyfer y comisiynydd safonau annibynnol yn cymryd lle comisiynydd statudol ar gyfer yr hyn sydd ar hyn o bryd yn gynghorydd anstatudol i'r Cynulliad. Felly, fel y dywedais yn gynharach, mae'r rhain yn greaduriaid gwahanol. Mae rheswm penodol dros ddatgan annibyniaeth y comisiynydd mewn perthynas â hynny, gan nad yw bellach yn gynghorydd ond yn swyddog cenedlaethol a chomisiynydd annibynnol, a deilliodd hynny o adroddiad yr Athro Diana Woodhouse. Er ei fod wedi cymryd cryn amser, dyna pam ein bod yn gwneud hynny'n awr.

[156] The remuneration body is an entirely new body, and we have not thought it necessary to refer to its independence explicitly. We believe that the proposed Measure guarantees that independence, in effect. However, if you were to put in your report that you think that, as a principle, it would be better to annunciate this point—and I have a bit of interest in the French and European tradition of legislating, which is to assert principles—it may be worth doing so, for us to assert the principle that this is an independent body. That might be helpful for some of the perception issues that I have discussed.

[157] **Val Lloyd:** It was suggested to us that it would promote greater public confidence if it were there in print. That was the reason for it.

[158] **The Presiding Officer:** I am afraid that you are right again. I am sorry. That was not the form of words that I meant to use. We will give full consideration to it if you make such a recommendation.

[159] **Rosemary Butler:** The committee has received evidence, Presiding Officer, to suggest that the board may need to meet more frequently than the two days suggested in the explanatory memorandum, which would require administrative support. What is your response to that? We ask that question because, when we had Richard Penn here, as chair of the Independent Remuneration Panel for Wales, he told us that it meets 30 times in a year. To us, that seems to be an extraordinary number of times. The feeling was that two days would not be sufficient for this board to meet. It is about the resources that would be required for that.

[160] **The Presiding Officer:** I have, on a number of occasions, discussed with Richard Penn the work that he does for us and the work that he does for local government. I think that the remuneration panel for local government met 30 times because there are 22 Welsh local authorities, currently, and the panel members had been to all of them. This board has a different function. The explanatory memorandum contains our best

Mae'r corff taliadau yn gorff newydd sbon, ac nid ydym wedi teimlo ei bod yn angenrheidiol cyfeirio'n benodol at ei annibynnbiaeth. Credwn fod y Mesur arfaethedig yn sicrhau'r annibynnbiaeth honno, i bob diben. Fodd bynnag, pe baech yn cynnwys yn eich adroddiad eich bod yn credu hynny, fel egwyddor, byddai'n well datgan y pwynt hwnnw—ac mae gennyf beth diddordeb yn y traddodiad Ffrengig ac Ewropeaidd o ddeddfu, sef arddel egwyddorion—efallai y byddai'n werth gwneud hynny, inni arddel yr egwyddor bod hwn yn gorff annibynnol. Gallai hynny fod yn ddefnyddiol o ran rhai o'r materion amgyffred yr wyf wedi'u trafod.

Val Lloyd: Awgrymwyd i ni y byddai'n hybu mwy o hyder ymhlihyd y cyhoedd pe bai yno ar bapur. Dyna'r rheswm am hynny.

Llywydd: Mae arnaf ofn eich bod yn iawn eto. Mae'n ddrwg gennyf, ond nid dyna'r ffurfeiriau yr oeddwn i'n bwriadu ei ddefnyddio. Byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'r mater os ydych yn argymhell hynny.

Rosemary Butler: Mae'r pwylgor wedi derbyn dystiolaeth, Lywydd, sy'n awgrymu y gallai fod angen i'r bwrdd gyfarfod yn amlach na'r deuddydd a awgrymwyd yn y memorandwm esboniadol, a fyddai'n gofyn am gymorth gweinyddol. Beth yw eich ymateb i hynny? Yr ydym yn gofyn y cwestiwn hwnnw oherwydd, pan oedd Richard Penn yma, cadeirydd Panel Taliadau Annibynnol Cymru, dywedodd fod y panel yn cyfarfod 30 gwaith y flwyddyn. I ni, mae hynny'n ymddangos yn nifer anhygoel. Y teimlad oedd na fyddai deuddydd yn ddigon i'r bwrdd hwn gyfarfod. Mae'n ymwnaed â'r adnoddau a fyddai'n ofynnol ar gyfer hynny.

Y Llywydd: Yr wyf wedi trafod gyda Richard Penn, ar sawl achlysur, y gwaith y mae'n ei wneud i ni ac i lywodraeth leol. Credaf fod y panel taliadau ar gyfer llywodraeth leol wedi cyfarfod 30 gwaith am fod 22 awdurdod lleol yng Nghymru, ar hyn o bryd, ac yr oedd aelodau'r panel wedi bod i bob un. Mae gan y bwrdd hwn swyddogaeth wahanol. Mae'r memorandwm esboniadol yn cynnwys ein hamcangyfrif gorau, a byddaf

estimate, and I shall appear before the Finance Committee next week—and that will probably include some of you. The board will make its own arrangements, and these are estimates only. We have envisaged the minimum. This is not a service-providing organisation. It is not delivering services, so there is not an administrative cost in the proportion of administration necessary to deliver a public service, which I think is a different kind of equation. It is about an independent body seeking evidence to decide the level of remuneration, so I think that there is a difference between that and the situation with local government.

[161] **Rosemary Butler:** We accept that they have totally different remits, but we were concerned because the evidence that we had was that two days would not be enough. The comment was then made that if the panel decided to meet frequently, the budget would go up, but who can tell it that it should not be spending that much money? That is the issue. There has to be some kind of control over its timetable and how it can meet.

[162] **The Presiding Officer:** The Assembly Commission provides the resource. I have been singularly unsuccessful in persuading Assembly committees not to meet as often as they do—and I do not mean the legislative committees, but other committees—or indeed not to meet outside Cardiff at great expense. This is a feature of democracy, is it not? Once you create an independent body, give it duties or responsibilities, you expect it to discharge them. Since the independent remuneration body will not have separate staffing from the Assembly Commission, there will be not a sanction, but a reasonable oversight of the budget and there will be an annual budget that will be approved for the work of this body. Its annual report will reflect what it has done and there will be plenty of opportunities to ensure that the body operates in an effective way. Again, this is governance, audit and resource territory. If you think that there should be a clearer way of ensuring that there is no overspend by this new body, we would be glad to have your views on that.

yn ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyllid yr wythnos nesaf—a bydd rhai ohonoch yno, mae'n debyg. Bydd y bwrdd yn gwneud ei drefniadau ei hun, ac amcangyfrifon yn unig yw'r rhain. Yr ydym wedi rhagweld yr isafswm. Nid yw hwn yn sefydliad sy'n darparu gwasanaethau. Nid yw'n darparu gwasanaethau, felly nid oes cost weinyddol o ran y gyfran o weinyddiaeth sy'n angenrheidiol i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus, sy'n hafaliad o fath gwahanol yn fy marn i. Mae'n ymwneud â chorff annibynnol yn ceisio dystiolaeth i benderfynu ar lefel y taliadau, a chredaf fod gwahaniaeth rhyngddo a'r sefyllfa gyda llywodraeth leol.

Rosemary Butler: Yr ydym yn derbyn bod ganddynt gylchoedd gwaith cwbl wahanol, ond yr oeddem yn bryderus oherwydd yr oedd y dystiolaeth yn awgrymu na fyddai deuddydd yn ddigon. Yna gwnaed y sylw pe bai'r panel yn cyfarfod yn amlach, byddai'r gyllideb yn cynyddu, ond pwysy'n cael dweud wrtho na ddylai fod yn gwario cymaint o arian? Dyna'r cwestiwn. Rhaid cael rhyw fath o reolaeth dros ei amserlen a sut y gall gyfarfod.

Y Llywydd: Mae Comisiwn y Cynulliad yn darparu'r adnodd. Yr wyf wedi bod yn hynod o awlwyddiannus wrth berswadio pwylgorau'r Cynulliad i beidio â chyfarfod mor aml ag ydynt—ac nid wyf yn cyfeirio at y pwylgorau deddfwriaethol, ond pwylgorau eraill—neu yn wir i beidio â chyfarfod y tu allan i Gaerdydd am gost fawr. Mae hyn yn un o nodweddion democraciaeth, onid e? Unwaith y byddwch yn creu corff annibynnol, rhoi dyletswyddau neu gyfrifoldebau iddo, yna yr ydych yn disgwyl iddo eu cyflawni. Gan na fydd gan y corff taliadau annibynnol staff ar wahân i Gomisiwn y Cynulliad, bydd nid sancsiwn, ond arolygiaeth resymol o'r gyllideb, a bydd cyllideb flynyddol a gaiff ei chymeradwyo ar gyfer gwaith y corff hwn. Bydd ei adroddiad blynnyddol yn myfyrio ar yr hyn y bydd wedi'i wneud a bydd digon o gylleoedd i sicrhau bod y corff yn gweithredu mewn ffordd effeithiol. Unwaith eto, meysydd llywodraethu, archwilio ac adnoddau yw'r rhain. Os credwch y dylid cael ffordd gliriach o sicrhau nad oes gorwario gan y corff newydd hwn, byddem yn falch o glywed eich safbwytiau ar hynny.

[163] **Rosemary Butler:** You have said that there will be no influence on the panel because it will be independent, but what are the procedures that you or anyone could use if, for example, it went outside its job description or was moving in a direction that was not originally anticipated? It is the question of where is that bit of control, because if it is independent, there must be some kind of protocol that says 'That is not what we intended'.

[164] **The Presiding Officer:** I think that, because the body is clearly charged with responsibilities and functions, it will make its own arrangements to deliver them and we expect that the people appointed to such a body will do so in a way that is consonant with public policy and with the Nolan principles. The ultimate sanction is that they can be removed, and that has to be done by the Assembly Commission, but that is the ultimate sanction. We have discussed this before.

[165] **Rosemary Butler:** We just wanted you to clarify that. It is a concern that there must be some kind of sanction before the ultimate sanction. Eleanor, did you want to come back on that?

[166] **Eleanor Burnham:** On that point, some concern was voiced at one stage about this issue regarding the sensitivity of the work that will be undertaken and that there might be a need for some kind of extra or emergency type of meeting if there was something in the press that was not right or if it had to respond to some issue to do with the sensitivity of its role.

[167] **The Presiding Officer:** I have checked. It is section 5 that brings membership of the board to an end and that is on a motion by the Assembly. I should have made that clear earlier. It is only in the sanction that the Assembly is involved, but we have discussed this before. Section 5(d) states that a motion from the Assembly Commission by a Commissioner is how membership comes to an end, subject to a two-thirds majority. That was the only way that we could find of dismissing someone in a proper way. Clearly, that is in extremis, but

Rosemary Butler: Yr ydych wedi dweud na fydd dylanwadu ar y panel oherwydd y bydd yn annibynnol, ond beth yw'r gweithdrefnau y gallich chi neu bwy bynnag eu defnyddio os, er enghraifft, yw'n mynd y tu hwnt i'w ddisgrifiad swydd neu'n symud mewn cyfeiriad nas rhagwelwyd yn wreiddiol? Mae'n ymwneud ag ymhle y mae'r rheolaeth honno, oherwydd os yw'n annibynnol, mae'n rhaid cael rhyw fath o brotocol sy'n dweud 'Nid dyna oedd ein bwriad'.

Y Llywydd: Oherwydd ei fod yn amlwg bod gan y corff gyfrifoldeb a swyddogaethau, credaf y bydd yn gwneud ei drefniadau ei hun i'w cyflawni, ac yr ydym yn disgwyl y bydd y bobl a benodir i gorff o'r fath yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n gydnaws â pholisi cyhoeddus ac egwyddorion Nolan. Y prif sancsiwn yw y gellir eu diswyddo, a rhaid i hynny gael ei wneud gan Gomisiwn y Cynulliad, ond y prif sancsiwn yw hwnnw. Yr ydym wedi trafod hyn eisoes.

Rosemary Butler: Yr oeddem am ichi egluro hynny. Mae'n peri pryder bod yn rhaid cael rhyw fath o sancsiwn cyn y prif sancsiwn. Eleanor, a oeddech am ddod yn ôl at hynny?

Eleanor Burnham: Ar y pwynt hwnnw, mynegwyd peth pryder ar un cyfnod am y mater hwn o sensitifrwydd y gwaith a fydd yn cael ei wneud ac efallai y bydd angen rhyw fath o gyfarfod brys neu ychwanegol pe bai rhywbeth yn y wasg nad oedd yn iawn neu pe bai'n rhaid iddo ymateb i ryw fater yn ymwneud â sensitifrwydd ei swyddogaeth.

Y Llywydd: Yr wyf wedi ymchwilio i hynny. Adran 5 sy'n cloi'r mater o aelodaeth y bwrdd ac mae hynny ar gynnig gan y Cynulliad. Dylwn fod wedi gwneud hynny'n glir yn gynharach. Mae'r Cynulliad yn cyfrannu ato yn y sancsiwn yn unig, ond yr ydym wedi trafod hyn o'r blaen. Mae adran 5(d) yn datgan bod aelodaeth yn dod i ben drwy gynnig gan Gomisiynydd i Gomisiwn y Cynulliad, a bod hynny'n amodol ar fwyafrif o ddwy ran o dair. Dyna'r unig ffordd y gallem ddiswyddo rhywun yn y ffordd gywir. Yn amlwg, mae hynny mewn sefyllfaeodd

the day-to-day running of this body would be through the normal audit and accounting procedures of the Assembly Commission.

2.30 p.m.

[168] That would or could include discussion—coming soon, not to a cinema near you, but not far from this building—at a meeting of the Commission. We meet on a monthly basis and we review regularly our budget, and part of that is a management board report, which draws to our attention where we are on heads of expenditure. Therefore, there would be early indication if this body started meeting erratically or irregularly. Do you wish to add to that, Dianne?

[169] **Ms Bevan:** Yes. I think that that is right. Section 7 of the proposed Measure also talks of the Commission providing resources so that the board can reasonably fulfil its functions. So, we are not really talking about anything unduly extravagant; we are looking at reasonableness, and I think that that is what the Commission would review in each case.

[170] **Mr Bush:** I think that we made clear that the issues of governance, reporting, accounts and so on are areas that will need to be looked at to see to what extent safeguards can be tightened up and made clearer. Something like an annual report, on which the board might be required to answer questions, would be a way of exposing to public scrutiny issues such as ‘Why was it that you met 10 times this year and only twice last year?’ and so on. It would be an opportunity for scrutiny of the use of resources by the board itself, as opposed to any kind of interference in the decision making on the part of the board.

[171] **Rosemary Butler:** Thank you. We have asked you a lot of questions. If there are any additional comments that you wish to make, you could send them in writing. We will send you a copy of the draft transcript. Thank you for coming here this afternoon.

eithriadol, ond byddai'r bwrdd hwn yn cael ei redeg o ddydd i ddydd drwy weithdrefnau archwilio a chyfrifo arferol Comisiwn y Cynulliad.

Byddai neu gallai hynny gynnwys trafodaeth—a fydd yn dod yn fuan, nid i sinema gyfagos, ond nid nepell o'r adeilad hwn—mewn cyfarfod o'r Comisiwn. Yr ydym yn cyfarfod bob mis ac yn adolygu ein cyllideb yn rheolaidd, ac mae ran o hynny'n adroddiad bwrdd rheoli, sy'n tynnu ein sylw i lle yr ydym o ran penawdau gwariant. Felly, byddai arwydd cynnar pe bai'r corff hwn yn dechrau cyfarfod yn anghyson neu'n afreolaidd. A ydych am ychwanegu at hynny, Dianne?

Ms Bevan: Ydwyt. Credaf fod hynny'n gywir. Mae adran 7 y Mesur arfaethedig hefyd yn siarad am y Comisiwn yn darparu adnoddau er mwyn i'r bwrdd allu cyflawni ei swyddogaethau'n rhesymol. Felly, nid ydym yn siarad am unrhyw beth y tu hwnt o wastraffus mewn gwirionedd; yr ydym yn edrych ar resymolrwydd, a chredaf mai dyna beth fyddai'r Comisiwn yn ei adolygu ym mhob achos.

Mr Bush: Credaf ein bod wedi'i gwneud yn glir bod y mater o lywodraethu, adrodd, cyfrifon ac ati yn feisydd y bydd angen edrych arnynt i weld i ba raddau y gellir cryfhau mesurau diogelwch a'u gwneud yn gliriach. Byddai rhywbeth fel adroddiad blynnyddol, lle y byddai'n ofynnol i'r bwrdd ateb cwestiynau, yn ffordd o fod yn agored i faterion craffu cyhoeddus fel ‘Pam y bu i chi gyfarfod 10 gwaith eleni a dwywaith yn unig y llynedd?’ ac ati. Byddai'n gyfle i graffu ar y defnydd o adnoddau gan y bwrdd ei hun, yn hytrach nag unrhyw fath o ymyrraeth yn y ffordd o wneud penderfyniadau ar ran y bwrdd.

Rosemary Butler: Diolch. Yr ydym wedi gofyn llawer o gwestiynau i chi. Os oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol yr ydych am eu gwneud, gallwch eu hanfon i mewn yn ysgrifenedig. Byddwn yn anfon copi o'r trawsgrifiad drafat atoch. Diolch am ddod yma'r prynhawn yma.

2.31 p.m.

**Cynnig Trefniadol
Procedural Motion**

[172] **Rosemary Butler:** I move that

in accordance with Standing Order No. 10.37(vi), the committee resolves to exclude the public from all future meetings at which it will be deliberating on the content, conclusion and recommendations of its report on the proposed Measure.

[173] I see that the committee is in agreement. This is our last evidence-taking session. It is now that the hard work starts. Thank you. The next meeting will be held on Thursday, 11 February.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

Rosemary Butler: Cynigiaf fod

yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 10.37(vi), y pwylgor yn penderfynu gwahardd y cyhoedd o bob cyfarfod yn y dyfodol lle bydd yn trafod cynwys, casgliad ac argymhellion ei adroddiad ar y Mesur arfaethedig.

Gwelaf fod y pwylgor yn cytuno. Dyma ein sesiwn olaf i gymryd tystiolaeth. Yn awr y bydd y gwaith caled yn dechrau. Diolch. Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Iau, 11 Chwefror.

*Daeth y cyfarfod i ben am 2.32 p.m.
The meeting ended at 2.32 p.m.*